




Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cyfaill nid gelyn: Cefnogi dulliau cofnodi sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ystyrlon mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru

Dogfen prawf



Contents

Cyflwyniad a chefnidir.....	4
Roedd e fel dod o hyd i aur – stori Fran.....	7
Diben a nodau’r adnodd hwn.....	8
Cefndir: Dull sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau personol wrth ymarfer a chofnodi.....	9
Yr egwyddorion allweddol ar gyfer cofnodion sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau personol.....	12
Canllawiau: Enghreifftiau o gofnodion sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau personol mewn ymarfer.....	13
Cymorth a goruchwyliaeth ac ymarferion i ddatblygu staff.....	31
Cyfeiriadau.....	35
Atodiad 1: Creu’r amgylchedd iawn o fewn y sefydliad er mwyn i ymarfer a chofnodi sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau ffynnu.....	37

Hoffem ddiolch i'r bobl ganlynol am eu help a'u cymorth wrth lunio'r ddogfen hon

- Claire Thomas Llywodraeth Cymru
- Lou Bushell - Bauers Arolygiaeth Gofal Cymru
- Myfanwy Moran Arolygiaeth Gofal Cymru
- Nev Thomas Arolygiaeth Gofal Cymru
- Sue Millington Arolygiaeth Gofal Cymru
- Keri Llywelyn All Care
- Claire Morgan Carers UK
- Suzanne Burgoyne Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd
- Heidi Morris System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru
- Jenny O'Hara Jakeway Credu Cymru
- Marie Davies Credu Cymru
- Becky Evans Credu Cymru
- Maria Selby Gwasanaethau Plant Cyngor Castell-nedd Port Talbot
- Alyson Hoskins Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Blaenau Gwent
- Meilys Heulfryn Smith Gwasanaeth Oedolion Cyngor Gwynedd
- Susie Lunt Cyngor Sir y Fflint
- Christy Hoskins Cyngor Sir y Fflint
- Annette Brady Cyngor Sir Fynwy
- Eve Parkinson Cyngor Sir Fynwy
- Julia Isaac Gwasanaethau Oedolion Cyngor Sir Powys
- Karen Benjamin Consortiwm Comisiynu Plant Cymru
- Darryl Williams Woodlands Cyfyngedig
- Maria Bell Bwrdd Comisiynu Gogledd Cymru
- Stewart Blythe Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Dan Oliver Gofalwr maeth
- Natalie Poyner Cyngor Sir Casnewydd
- Emma Miller Prifysgol Strathclyde
- Nick Andrews Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Prifysgol Abertawe

Cyflwyniad a chefnidir

Mae'r cyflwyniad hwn yn nodi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect Cofnodi Achosion. Ers cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae diwylliant y sector Gofal Cymdeithasol yng Nghymru wedi newid o ran sut mae'r gweithlu'n ymgysylltu ag unigolion sy'n cael gofal a chymorth. Yn hytrach na gofyn 'beth sy'n bod', yn awr rydym yn gofyn 'beth sy'n bwysig i chi?'.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r sector i gefnogi'r newid hwn mewn diwylliant ac mae wedi ymwreiddio ymarfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae cofnodi achosion yn rhan hanfodol o'r ymarfer hwn, ac yn awr rydym yn ystyried sut gall hyn gyfoethogi a chryfhau'r ymarfer ymhellach.

Ers mis Chwefror 2020, mae'r Grŵp Llywio Cofnodi Achosion (sy'n cynnwys awdurdodau lleol, darparwyr, Arolygiaeth Gofal Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac unigolion a gaiff ofal a chymorth) wedi bod yn cyfarfod gyda Nick Andrews o Ysgol Cymru ar gyfer Gofal Cymdeithasol a Dr Emma Miller o Brifysgol Strathclyde.

Mae'r ddogfen hon wedi deillio o waith y Grŵp Llywio Cofnodi Achosion.

Bwriad y ddogfen hon yw ymdrin â'r modd y dylid cofnodi achosion. Dylai'r dull cofnodi:

- Fod yn glir ac yn benodol (dim jargon)
- Adlewyrchu lleisiau a barn unigolion, gofalwyr, plant a theuluoedd
- Bod yn gryno
- Bod yn gydlynol ac yn drefnus
- Bod yn berthnasol
- Bod yn fanwl gywir
- Bod yn gymesur
- Bod yn gytbwys ac yn gyfannol (yn seiliedig ar gryfderau)
- Gwahaniaethu rhwng ffaith a barn
- Bod yn ddadansoddol
- Cynnwys y sail resymegol sydd wrth wraidd unrhyw benderfyniadau a wneir

Mae yna rai gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i gofnodi achosion. Os dilynir y cyngor uchod, yna mae'r gofynion hynny'n debygol o fod yn gadarnach.

Am beth rydym yn chwilio?

- Pobl sy'n gysylltiedig ar hyn o bryd â chofnodi achosion er mwyn profi'r ddogfen 'Cyfaill nid Gelyn' a rhannu adborth gyda Gofal Cymdeithasol Cymru
- Ymarferwyr a rheolwyr a all rannu enghreifftiau o'u gwaith cofnodi achosion, sy'n dangos sut gellir cofnodi canlyniadau.

Profi

Nid yw hwn yn gysyniad newydd i nifer o bobl, oherwydd mae'r gwaith o gofnodi achosion yn cael ei wneud yn effeithiol eisoes mewn sawl maes o fewn gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, yr hyn a all fod yn newydd yw trafod beth ddylai'r blaenoriaethau fod ar gyfer cofnodi achosion yn dda a mynd ati i feddwl yn wahanol am y blaenoriaethau hyn.

Argymhellwn y dylech ddarllen yr adnodd drwyddo draw, ond gwyddom na fydd hyn yn bosibl bob amser. Mae'r ddogfen wedi'i threfnu mewn ffordd a fydd yn eich helpu i wneud synnwyr o'r prif elfennau a'r prif egwyddorion.

Mae'r tabl canlynol yn galluogi'r darllenwyr i ddod o hyd i wybodaeth benodol yn ymwneud â'r meysydd y gallant fod â diddordeb yn eu profi. Gellir dod o hyd i restr o'r prif egwyddorion ar gyfer cofnodi effeithiol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau personol ar dudalen 11.

Categori/cysyniad	Rhif y dudalen
Ysgrifennu cofnodion achos; gwneud y cofnod yn bersonol ac yn hygyrch; arddulliau ysgrifennu Cofnodi gwahanol fathau o ganlyniadau	13-14
Cofnodi cryfderau a phennu risgiau	14-16
Dangos y canlynol wrth gofnodi achosion: gwaith dadansoddi, sut y gwneir penderfyniadau, gwahanol safbwyntiau	16-21
Cofnodi'r hyn a ddysgwyd wrth fyfyrion ar y canlyniadau adeg eu hadolygu	22
Cydweithredu	22-25
Sicrhau bod y cofnod yn gynhwysol (gweithio gyda phobl ag anawsterau cyfathrebu)	25-28
Goruchwyliaeth	30-31
Ymarferion yn ymwneud ag ymarfer myfyriol	31-33
Creu'r amgylchedd iawn o fewn y sefydliad er mwyn i gofnodi sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ffynnu	37-38
Enghraifft o gofnodi canlyniadau mewn gofal preswyl Dementia	Dolen yn arwain at One Drive (Saesneg yn unig)
Enghraifft gyffredinol o gofnodi achosion	Dolen yn arwain at One Drive (Saesneg yn unig)
Enghraifft gyffredinol o gofnodi dyddiol	Dolen yn arwain at One Drive (Saesneg yn unig)
Enghreifftiau o ddogfennau adolygu sy'n canolbwyntio ar unigolion	Dolen yn arwain at One Drive (Saesneg yn unig)
Enghreifftiau o gofnodi mewn deialog agored gydag iechyd meddwl	Dolen yn arwain at One Drive (Saesneg yn unig)

Amserlen

Rhagwelwn y bydd y gwaith profi wedi'i gwblhau erbyn mis Mawrth 2021, oherwydd rydym yn llwyr ymwybodol o'r pwysau mae'r sector gofal cymdeithasol yn ei wynebu ar hyn o bryd yn sgil y pandemig. Rydym yn ddiolchgar dros ben am eich cymorth gyda'r gwaith pwysig hwn, oherwydd cydnabyddir ar draws y sector fod y gwaith hwn yn allweddol o ran sicrhau ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion ac ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau o fewn y maes gofal cymdeithasol.

Beth allwch chi ei ddisgwyl gennym?

Bydd tîm prosiect cofnodi achosion Gofal Cymdeithasol Cymru ar gael i drafod y defnydd a wnewch o'r adnodd, i weithio gyda chi ar gyfleoedd i brofi'r adnodd gyda'ch timau, ac i wrando ar eich adborth. I drafod ymhellach, cysylltwch â Jeff Brattan-Wilson jeff.brattan-wilson@gofalcymdeithasol.cymru

Roedd e fel dod o hyd i aur – stori Fran

“Wel, dyma fi’n rhannu fy mhrofiad... Wnes i erioed gyfarfod fy rhieni. Rydw i’n 58 oed nawr – er rydw i’n gwybod ‘mod i’n edrych yn iau... wnes i erioed gyfarfod fy rheini ac roeddwn i’n byw mewn cartref plant Barnardo’s yn ystod fy mlynnyddoedd cyntaf. Rydw i’n cofio pa mor drawmatig oedd hynny. Mae yna rai pethau sy’n dal i fod yn glir iawn i mi... pan wnaeth fy rhieni maeth fy ngadael yno a phethau felly. Atgofion mor ofnadwy o fyw.

Yn y pen draw, fe ges i fy maethu gan bâr a benderfynodd fy mabwysiadu pan oeddwn i’n 16 oed. Fe wnaethon ni adael pethau tan yr adeg honno, ond wedyn fe wnes i benderfyniad, felly nhw nawr yw fy rhieni. Mewn gwirionedd, doedd gen i ddim awydd cyfarfod fy rhieni go iawn... roeddwn i’n teimlo efallai y byddai hynny’n achosi gofid i ‘nheulu newydd, felly wnes i mo’i wneud e.

Ond fe wnes i adael y cartref, priodi a chael plant fy hun. Ac yna fe wnes i gyrraedd pwynt yn fy mywyd – yn fy nhridegau, o bosibl – pan wnes i benderfynu darllen fy ffeil, a oedd yn dal i gael ei chadw gan Barnardo’s... Ac felly, fe wnes i gysylltu â nhw a dyma nhw’n dweud, “Ie, dewch draw.” Felly fe wnes i apwyntiad. Es i i lawr i Barnardo’s, ac roedd yn brofiad mor anhygoel.

Doedd y ffeil ddim yn fawr, ond roedd dau beth yn sefyll allan – tri pheth, i ddweud y gwir. Y peth cyntaf oedd bod fy mam enedigol yn gwybod pob manylyn am beth oedd wedi digwydd i mi, ac roedd hynny’n golygu llawer i mi. Roedd popeth wedi cael ei gofnodi gan y gweithiwr cymdeithasol drwy’r holl gyfnod. Ac roedd llawer o bethau wedi digwydd i mi... fe es i i helynt gyda’r heddlu, fe ges i fy nhrywanu’n ddrwg; cafodd y mater sylw yn y papurau newydd ac ati – roedd fy mam enedigol yn gwybod hyn i gyd.

Rydw i’n artist eithaf da, hyd yn oed os ydw i’n dweud hynny fy hun, ac rydw i’n gwneud llawer o waith arlunio gyda thimau Formula One ac ati, ac yn fy ffeil gwelais fod fy mam enedigol yn artist gwyd, ac roeddwn i’n llawn cyffro ynglŷn â hynny, oherwydd roedd e fel pe bai yna gysylltiad.

A’r trydydd peth oedd hyn. Efallai y bydd hyn yn swnio braidd yn rhyfedd, ond am y tro cyntaf yn fy mywyd gwelais lun ohonof fi fy hun yn fabi bach. Roedd e’n brofiad gwefreiddiol. Doeddwn i erioed wedi gweld y llun... a phan oedd fy mab yn ifanc, roedd e’r un ffunud â fi – gwallt ‘Mohican’ ac ati. Ac felly, roeddwn i mor ddiolchgar i’r gweithwyr cymdeithasol am dreulio amser yn cofnodi’r wybodaeth hon. Roedd e fel dod o hyd i aur. Ac fe wnaeth e lenwi rhai bylchau i mi.

Doeddwn i dal ddim eisiau mynd i gyfarfod fy mam. Does gen i ddim byd yn ei herbyn, ond doeddwn i ddim yn meddwl y byddai ei chyfarfod yn helpu. Ond roeddwn i’n ddiolchgar dros ben am yr wybodaeth. Felly, o ran darllen fy ffeil, bu’n brofiad eithriadol, eithriadol o arwyddocaol.”

Rhannwyd y stori hon yn annisgwyl gan rywun a fynychodd ddigwyddiad ymgynghori’n ymwneud â’r adnodd hwn yn ystod mis Mawrth 2020. Mae’n dangos pa mor bwysig yw cofnodi manylion o safbwynt personol iawn.

Diben a nodau'r adnodd hwn

1. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud hi'n ofynnol i waith cymdeithasol, adsefydlu a gofal cymdeithasol ganolbwyntio ar ganlyniadau, gan gychwyn gyda beth sydd bwysicaf i bobl; mae'n cynorthwyo'r sector ac yn disgwyl i'r sector roi dull cydgyhyrchiol, seiliedig ar gryfderau, ar waith. Rhaid i drafodaethau rhwng ymarferwyr, unigolion, gofawyr, plant a'u teuluoedd ganolbwyntio ar ganlyniadau personol (h.y. nid rhai safonedig) ac ymhél â'r risgiau cysylltiedig er mwyn bod yn glir ynglŷn â ble rydym ar hyn o bryd, i ble rydym eisiau mynd a sut byddwn yn cyrraedd y fan honno. Rhaid i ni hefyd allu myfyrio ar yr hyn rydym wedi'i gyflawni a'r hyn rydym wedi'i ddysgu yn ystod y daith. Mae cofnodion clir a chryno yn rhan hanfodol o hyn. Maent yn cynnig adroddiad ysgrifenedig o drafodaethau, dadansoddiad a sail resymegol dros y cymorth a gynigir i unigolion, gofawyr, plant a'u teuluoedd wrth roi ymarfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar waith.
2. Diben yr adnodd hwn yw pennu egwyddorion a chanllawiau i gynorthwyo gyda gwaith cofnodi sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau personol, sef egwyddorion a chanllawiau sy'n seiliedig ar ymchwil, gwaith ymgynghori gydag ymarferwyr a thystiolaeth o'r hyn a all weithio. Mae'r prif ganolbwynt ar gofnodi achosion, a thrwy ddweud hynny rydym yn golygu cofnodion beunyddiol yn sôn am y rhyngweithio rhwng ymarferwyr a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, sef cofnodion a all lywio a dylanwadu ar benderfyniadau a wneir ar gyfer/gyda phobl. Nod arall yw cyflwyno enghreifftiau amrywiol o gofnodion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac ymarferion myfyriol cysylltiedig. Bydd yr enghreifftiau hyn yn cynorthwyo unigolion, timau a sefydliadau i hyrwyddo arferion cofnodi cyson ac ystyrlon a all helpu i adeiladu perthnasoedd a meithrin dealltwriaeth gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, yn hytrach na thynnu sylw oddi wrthynt.
3. Mae'r adnodd hwn wedi'i dargedu at sawl cynulleidfa, yn cynnwys pobl sy'n cael cymorth gan wasanaethau gwaith cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol, ymarferwyr, rheolwyr a chomisynwyr. Gellir ei ddefnyddio hefyd i lywio'r gwaith o gofnodi asesiadau, cynlluniau gofal a chymorth, nodiadau achos parhaus, nodiadau cyfarfodydd, gwaith comisiynu a gohebiaeth, yn cynnwys e-byst.
4. Un o'r heriau mawr sy'n wynebu ymarferwyr a sefydliadau wrth gofnodi yw penderfynu ar yr hyn y dylid ei flaenoriaethu o blith y doreth enfawr o wybodaeth a gesglir yn ddyddiol. Mae gwrthddywediadau a thensiynau yn y system yn golygu bod modd i flaenoriaethau cofnodi gael eu hystumio. Bwriad yr adnodd hwn yw hwyluso pobl i lywio trwy'r tensiynau hynny, a pharhau i ganolbwyntio ar ganlyniadau sy'n bwysig i bobl. Cafodd yr adnodd ei gomisiynu gan Ofal Cymdeithasol Cymru, sydd wedi gweithio'n agos gydag ymchwilwyr o Brifysgolion Abertawe a Strathclyde. Mae'n seiliedig ar adolygiad o waith ymchwil a oedd yn bodoli eisoes a gwaith cydweithredu eang a oedd yn cynnwys yr ymchwilwyr a Gofal Cymdeithasol Cymru, fel a ganlyn:
 - adolygiad llenyddiaeth o gofnodion gofal cymdeithasol;
 - ymgysylltu â grŵp cyfeirio traws-sector;
 - tri digwyddiad ymgynghori o amgylch Cymru a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2020 (gyda 160 o fynychwyr);
 - cyfarfodydd grŵp a chyfarfodydd un-i-un llai a gynhaliwyd yn ystod misoedd cyntaf 2020;
 - cyfarfodydd rheolaidd rhwng Gofal Cymdeithasol Cymru a'r ymchwilwyr;
 - awdurdodau lleol a darparwyr ledled Cymru yn rhannu enghreifftiau amrywiol;
 - gohebiaeth a chyfarfodydd gydag Iriss yn yr Alban (<https://www.iriss.org.uk/>) ynglŷn â gwaith tebyg yn y fan honno.


Cefndir: Dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau personol wrth ymarfer a chofnodi

Canolbwyntio ar beth sy'n bwysig

5. Mae yna ffactorau allweddol sy'n sail i iechyd, llesiant ac ansawdd bywyd pob un ohonom. Yn ogystal ag anghenion corfforol yn ymwneud â goroesi, os yw pobl am ffynnu maent angen cael eu cysylltu gyda'i gilydd, a chael eu gweld a'u clywed. Gwelir hyn yn stori Fran (gweler yr wynebdden), lle mae'n myfyrio ar sut mae'r profiad o ddarllen ei gofnodion wedi dylanwadu ar ei hunanddealltwriaeth a'i ymdeimlad o gysylltiad gyda'i fam enedigol. Dengys ei stori sut gall y broses gofnodi gynnig cyfleoedd unigryw i ddangos a sicrhau bod yr hyn a ddywed pobl yn bwysig, a bod y broses benderfynu'n cynnwys cymaint o wybodaeth a thystiolaeth ag y bo modd.
6. Mae rhoi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi arwain at newid mewn perthynas â phrosesau asesu a chynllunio gyda phobl a chanddynt anghenion gofal a chymorth. Mae'r sgwrs berthynol ynglŷn â 'beth sy'n bwysig' wrth galon a chraidd hyn oll, lle canolbwyntir ar ganlyniadau personol (Cook a Miller 2012), trwy adeiladu ar gryfderau a sicrhau bod yr hyn a ddywed pobl yn gwbl ganolog drwy'r amser. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi bod yn cynorthwyo'r gweithlu gofal cymdeithasol mewn amrywiol ffyrdd gyda chyfleoedd dysgu a datblygu, yn cynnwys hyfforddiant helaeth ledled Cymru yn ymwneud â'r [Rhaglen Sgiliau Cyfathrebu Cydweithredol](https://careaims.com/) dan y pennawd 'Care Aims' <https://careaims.com/>
7. Er bod perthnasoedd a sgysiau gofalgarg ac effeithiol yn ymwneud â 'beth sy'n bwysig' wrth galon a chraidd ymarfer gofal cymdeithasol da, mae cofnodi yn bwysig hefyd. Yn ogystal ag ategu ymarfer a gwaith dadansoddi da, mae cofnodi a chofnodion yn:
 - cadw atgofion ar gyfer ymarferwyr, y bobl maent yn eu cynorthwyo a sefydliadau;
 - dylanwadu ar hunaniaeth trwy ategu hunanddealltwriaeth pobl a'u hymdeimlad o'u gwerth eu hunain, yn ogystal â'r heriau a wynebant;
 - cynnig cyfleoedd i gadarnhau dealltwriaeth a chydgyhyrchu cytundebau ynglŷn â ffyrdd o gydweithio;
 - llywio ac yn dylanwadu ar ymarferwyr eraill ar draws/oddi mewn i asiantaethau;
 - helpu i greu perthnasoedd cadarnhaol mewn ymarfer;
 - dylanwadu'n uniongyrchol ar benderfyniadau ar lefel yr unigolyn;
 - dylanwadu ar benderfyniadau asiantaethau trwy goladu cofnodion (Miller a Barrie 2019).
8. Fodd bynnag, yn ystod y ddau ddegawd diwethaf dechreuwyd ystyried bod gwaith cofnodi yn 'elynydd' yn hytrach nag yn 'gyfaill', gyda'r pwyslais ar atebolrwydd, perfformiad a rhoi tic yn y blychau, yn hytrach nag ar greu perthnasoedd a gwella bywydau pobl (Munroe et al 2020). Pan aethom ati i gynnal digwyddiadau ymgysylltu o amgylch Cymru yn ystod mis Mawrth 2020, soniodd ymarferwyr wrthym am rwystrau'n ymwneud â'r system a rhwystrau sefydliadol a oedd yn eu hatal rhag cofnodi beth oedd yn bwysig (gweler Atodiad 1). Mae'n bwysig i ni fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn.
9. Mae'r angen i roi mwy o sylw i gofnodi yn y gwasanaethau cymdeithasol yn bryder sy'n bodoli ers tro byd. Dangosodd ein hadolygiad llenyddiaeth fod hyn wedi'i bennu fel bwloch ers degawdau (Ames 1999) ac nad yw'r staff yn cael y cymorth mae arnynt ei angen i gofnodi (Rai a Lillis 2013).
10. Mae polisi a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir fod Llywodraeth Cymru eisieu cynorthwyo i ddatblygu systemau a fydd yn galluogi pobl i 'wneud y peth iawn', gan gynnwys y ffordd y cofnodir canlyniadau ac y'u cysylltir â defnydd effeithiol o adnoddau. Hefyd, rydym yn symud oddi wrth system sy'n dibynnu'n llwyr ar roi tic yn y blychau. Mae'r Fframwaith Mesur Perfformiad ar gyfer Awdurdodau Lleol yn rhoi pwyslais ar ddata ansoddol (hanesion), yn ogystal â data meintiol (niferoedd), gan fynnu y dylai gwaith cofnodi fod yn ystyrllon ac yn gyd-destunol.

Rhoi dull cydgynhyrchiol ar waith

11. Yn ogystal â chanolbwyntio ar beth sy'n bwysig, mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn mynnu y dylid rhoi dull cydweithredol a chydgyngyrchiol ar waith wrth ymarfer a chofnodi.
12. Gall y bwriadau gorau, hyd yn oed, fethu â dwyn ffrwyth pan geir camddealltwriaeth ynglŷn â beth sy'n bwysig i unigolion, neu pan fydd pobl yn teimlo bod eu barn a'u blaenoriaethau wedi cael eu diystyru. Un o'r manteision allweddol sy'n perthyn i ddull cydgynhyrchiol o gofnodi canlyniadau personol yw ei fod yn helpu i greu iaith a dealltwriaeth gyffredin, sef rhywbeth sydd, yn ei dro, yn arwain at syniadau a chymau cydgysylltiedig. Ym mhob rhan o fywyd, yn aml caiff y penderfyniadau gorau eu gwneud pan fydd pobl yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi gwahanol farnau. Fodd bynnag, mae hyn yn codi cwestiwn ynglŷn â'r modd y caiff gwahanol farnau eu cydbwysu a'u cofnodi, gyda thystiolaeth glir fod trafodaeth wedi'i chynnal, gan sicrhau na chaiff canlyniadau personol eu boddi gan ganlyniadau'r ymarferydd a chanlyniadau'r sefydliad.
13. Mae'r Model Cyfnewid yn ffordd dda o ddarlunio pwysigrwydd a gwerth dull cydgynhyrchiol o bennu a chofnodi canlyniadau (gweler y ffigur isod). Mae'r model hwn yn pennu ac yn rhoi gwerth ar farnau pobl wahanol, gan eu dwyn ynghyd trwy ddeialog a datblygu canlyniadau personol a drafodir. Gall hyn fod yn bwysig dros ben pan geir tensiynau rhwng barn yr holl bobl dan sylw (er enghraifft, rhieni ac ymarferwyr wrth ddiogelu plant).



(Smale a Tuscon 1993, addaswyd gan Miller a Barrie 2016)

Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol a Chod Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr Gofal Cymdeithasol

Mae ethos Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r arfer o weithio mewn ffyrdd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau wedi'u hymgorffori yn y [Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol](#) a'r [Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr Gofal Cymdeithasol](#). Mae'r Cod yn cynnwys rhestr o ddatganiadau lle disgrifir y safonau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol mae'n ofynnol i bobl a gyflogir yn y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru eu harddangos.

Yn ôl y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol, rhaid i'r gweithwyr gadw cofnodion clir a chywir yn unol â gofynion y gyfraith a gofynion y lleoliad gwaith, ac mae'r Cod ar gyfer Cyflogwyr Gofal Cymdeithasol yn nodi bod yn rhaid i gyflogwyr weithredu a monitro polisiau ysgrifenedig yn ymwneud â chyfrinachedd a chadw cofnodion.

Mwy na Geiriau

Mae Mwy na Geiriau yn cynnwys nifer o egwyddorion rhagorol er mwyn sicrhau bod anghenion iaith Gymraeg pobl yn cael eu diwallu. Mae'r strategaeth yn rhoi dyletswydd ar ddarparwyr gofal i sicrhau bod ganddynt staff sy'n meddu ar y sgiliau iaith priodol i ofalu am unigolion Gymraeg eu hiaith.

Mae egwyddor y 'Cynnig Gweithredol' wrth galon a chraidd Mwy na Geiriau. Yn ôl y Cynnig Gweithredol, ni ddylai darparwyr aros i unigolion ofyn am ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg; yn hytrach, dylent fynd ati i holi'n benodol beth yw eu hanghenion iaith. Yn ôl y strategaeth: 'Os ydych yn siaradwr Gymraeg, mae gallu defnyddio eich iaith eich hun yn elfen graidd o ofal nid yn rhywbeth ychwanegol.'

Adnoddau ychwanegol: Os ydych eisiau defnyddio'r Gymraeg, neu wella eich defnydd o'r Gymraeg, yn y gwaith, beth am gael golwg ar '[Defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle](#)' ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru. Ceir offer a all gynorthwyo i gyflawni'r cynnig gweithredol ynghyd ag adnoddau a all gynorthwyo i gyflawni Mwy na Geiriau.

Yr egwyddorion allweddol ar gyfer cofnodion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau personol

14. Mae'r egwyddorion a ganlyn wedi'u seilio ar ein hadolygiad o'r llenyddiaeth, ein digwyddiadau ymgynghori a'n gwaith ymgysylltu gyda'r grŵp cyfeirio a chydweithwyr eraill.

12 egwyddor allweddol ar gyfer cofnodion effeithiol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau

Gwnewch yn siŵr fod y cofnod yn bersonol ac yn hygyrch:

- Cofnodwch ganlyniadau personol, nid rhai safonedig neu rai sefydliadol – yr hyn sy'n wirioneddol bwysig i'r unigolyn yn ei eiriau a'i iaith ei hun
- Cofiwch gydnabod a chofnodi gwahanol fathau o ganlyniadau sy'n bwysig i bobl
- Adeiladwch ar gryfderau pobl ac ewch ati i bennu risgiau pwysig
- Gwnewch y cofnod yn glir ac yn gryno – defnyddiwch iaith glir

Gwnewch yn siŵr fod y cofnod yn ddadansoddol:

- Gwnewch yn siŵr fod y cofnod yn gywir – gwahaniaethwch rhwng ffaith a barn
- Gwnewch yn siŵr fod y cofnod yn gydgyhyrchiol – cofiwch ddarparu ar gyfer safbwyntiau gwahanol a chofiwch gynnwys safbwyntiau o'r fath
- Cofnodwch 'pam', nid 'beth' a 'sut' yn unig – a dangoswch y cysylltiad â'r penderfyniadau a wneir
- Cofnodwch yr hyn a ddysgwyd wrth fyfyrrio ar y canlyniadau adeg eu hadolygu

Gwnewch yn siŵr fod y cofnod yn 'fyw' a bod cofnodion ar draws pob sefydliad yn cael eu cysylltu gyda'i gilydd:

- Gwnewch yn siŵr fod y cofnod yn ymatebol i siwrnai'r unigolyn – cofiwch gyfleu ei stori
- Ewch ati i gysylltu cofnodion o ganlyniadau personol ar draws pob sefydliad

Gwnewch yn siŵr fod y cofnod yn gynhwysol:

- Gwnewch yn siŵr fod y cofnod yn bersonol ar gyfer pobl ag anawsterau cyfathrebu
- Gwnewch yn siŵr fod y cofnod yn bersonol trwy'r llwybr bywyd i gyd

Canllawiau: Enghreifftiau o gofnodion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau personol mewn ymarfer

15. Rydym nawr yn ystyried enghreifftiau o gofnodion sydd wedi deillio o amrywiol leoliadau (e.e. gwaith cymdeithasol, adsefydlu, darpariaeth gofal cymdeithasol a chysylltiad cymunedol) er mwyn cynorthwyo ymarferwyr unigol a thimau i fyfrio a thrafod.
16. Mae'r enghreifftiau hyn yn esbonio'r egwyddorion, a chânt eu cynnwys dan bedwar prif bennawd:
- Gwnewch yn siŵr fod y cofnod yn bersonol ac yn hygyrch
 - Gwnewch yn siŵr fod y cofnod yn ddadansoddol
 - Gwnewch yn siŵr fod y cofnod yn 'fyw' a bod cofnodion ar draws pob sefydliad yn cael eu cysylltu gyda'i gilydd
 - Gwnewch yn siŵr fod y cofnod yn gynhwysol

Gwnewch yn siŵr fod y cofnod yn bersonol ac yn hygyrch

Egwyddor 1. Cofnodwch ganlyniadau personol, nid rhai safonedig neu rai sefydliadol – yr hyn sy'n wirioneddol bwysig i'r unigolyn yn ei eiriau a'i iaith ei hun

17. Mae gwaith ymchwil sy'n ymwneud â chofnodi yn dangos yn gyson nad yw dymuniadau, teimladau a barn pobl a theuluoedd yn cael eu cynnwys, ar y cyfan, mewn cofnodion (Wilkins 2017). Mae yna duedd i gofnodi canlyniadau proffesiynol neu sefydliadol fel pe bai'r rhain yn perthyn i'r unigolyn. Hefyd, ceir tuedd i roi 'Rydw i' o flaen canlyniad a luniwyd gan ymarferydd. Nid yw hyn yn gwneud y canlyniad yn ganlyniad personol.

18. Dyma enghraifft o gofnodi nodau proffesiynol yn hytrach na chanlyniadau personol:

Mae Mr Murphy eisiau cerdded yn gymesur trwy wella hyd ei gamau neu Rydw i eisiau cerdded yn gymesur trwy wella hyd fy nghamau

19. Dyma ganlyniad personol mwy dilys a mwy tebygol:

Mae Mr Murphy eisiau gwella'r ffordd mae'n cerdded er mwyn iddo allu mynd i'r siop leol a chael sgwrs gyda'i gymdogion yn y pentref neu Mae'n gas gen i fod yn gaeth yn y tŷ – rydw i eisiau gallu cerdded unwaith eto er mwyn i mi allu mynd i'r siop a chael sgwrs gyda fy nghymdogion

20. Unwaith eto, mae'r enghraifft a ganlyn fel pe bai'n adlewyrchu blaenoriaethau'r asiantaeth yn hytrach na chanlyniad personol a bennwyd gan Archie ei hun:

Mae angen i Archie gydymffurfio â'i gynllun gofal

21. Dyma ganlyniad personol mwy tebygol:

Mae Archie eisiau aros yn y cartref plant oherwydd mae'n ymddiried yn y staff ac mae'n hoffi'r plant eraill, sy'n iau nag ef i gyd. Mae'n deall y bydd yn rhaid iddo roi'r gorau i yfed ac y bydd hyn yn ei helpu i reoli ei ddicter, fel y nodir yn ei gynllun gofal

Cofnodwch yr unigolyn yn ei eiriau ei hun

'Language that is concrete, contextualized and formulated in the words of the client reduces room for interpretation' (Roose et al 2009). *Dyfyniad Saesneg yn unig.*

- 22.** Mae cofnodi trwy ddefnyddio geiriau'r unigolyn nid yn unig yn sicrhau eglurder ynglŷn â'r hyn sy'n wirioneddol bwysig iddo, ond mae hefyd yn helpu eraill i ddeall, cydymdeimlo ac ymateb yn briodol. Efallai y bydd pobl sydd wedi'u hyfforddi i ddefnyddio iaith 'broffesiynol', fel y'i gelwir, o'r farn fod hyn yn groes i'r graen. Dyma enghraifft o naratif person cyntaf diddorol a ddeilliodd o brosiect cymorth cymunedol yng Nghymru:

Fe ddes i o hyd i Nerys – rydw i'n ei galw hi'n 'angel', oherwydd fe fuaswn i'n farw erbyn hyn hebddi hi

- 23.** Cymharwch hyn â'r datganiad mwy 'gwrthrychol' ac ystyriwch sut mae'r ddau ddatganiad yn effeithio arnoch a sut ydych yn deall David:

Ni soniodd David am unrhyw faterion sy'n destun pryder

- 24.** Yn yr achos hwn, o gofio y gellid cael pryderon ynglŷn â hunanladdiad yn y gorffennol, dylai'r cofnod fod wedi cynnwys nodyn yn dweud bod y pryderon diogelu wedi cael eu trin a'u trafod.
- 25.** Yn aml caiff canlyniadau eu cofnodi mewn ffordd gyffredinol iawn, gan gyfeirio at gategori cyffredinol trwy nodi, er enghraifft, fod rhywun eisiau teimlo'n 'fwy diogel' neu'n 'iachach'. Er mwyn gwneud y canlyniad yn ystyrllon, rhaid iddo gael ei fynegi mewn ffordd sy'n golygu rhywbeth i'r unigolyn. O ran y canlyniad, beth sy'n bwysig i'r unigolyn, a beth mae'r unigolyn yn gobeithio ei weld yn digwydd? Yn ddelfrydol, bydd y cofnod yn helpu i egluro safbwynt yr unigolyn, a bydd modd defnyddio'r safbwynt hwn fel sylfaen gadarn y gellir gwneud penderfyniadau ar ei sail ynglŷn â'r camau gorau i'w cymryd.

Pan wnaeth Rosa (17) ein galw y tro cyntaf rai misoedd yn ôl, roedd hi'n eithriadol o bryderus ac yn teimlo nad oedd hi'n ddiogel o gwbl oherwydd cam-drin domestig. Pan gafodd gymorth yn nes ymlaen i symud i fflat newydd ar ei phen ei hun, dywedodd ei bod yn teimlo fel pe bai "pwysau mawr wedi'i godi oddi ar fy ysgwyddau." Fodd bynnag, bythefnos yn ddiweddarach fe ffoniodd Rosa unwaith eto i ddweud nad oedd hi'n teimlo'n ddiogel am reswm arall. Nid yw Rosa erioed wedi byw ar ei phen ei hun o'r blaen ac nid yw wedi cyfarfod â neb yn y fflatiau eto. Mae hi angen cael gwybod bod rhywun dibynadwy wrth law i "rwystrô'r pryder rhag pwyso arna' i unwaith eto".

- 26.** Felly, mae ysgrifennu adroddiadau'n golygu cyfleu safbwyntiau newidiol. Dengys yr enghraifft hon sut mae cyfleu safbwynt Rosa ynglŷn â'i theimladau am ddiogelwch yn adrodd stori wahanol i'r hyn y gellid ei ddisgwyl a hithau wedi troi ei chefn ar fywyd camdriniol yn y cartref.

Lluniwch y cofnod yn iaith gyntaf yr unigolyn

Mae Cymru yn wlad ddwyieithog, ac mae iaith yn chwarae rhan bwysig o ofynion gofal a chymorth unigolyn. Gall pethau bach, fel unigolyn yn gallu siarad amdano'i hun yn ei ddewis iaith wneud gwahaniaeth mawr.

'Mwy na geiriau' yw Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol. Ei nod yw

- sicrhau bod anghenion ieithyddol siaradwyr Gymraeg yn cael eu diwallu
- darparu gwasanaeth Gymraeg i'r rhai sydd ei angen
- dangos bod iaith yn chwarae rhan bwysig o ran ansawdd gofal ac nad yw'n cael ei ystyried yn "ychwanegiad".

Dyma ddull rhagweithiol o ran dewis ac angen iaith yng Nghymru, sy'n rhoi'r cyfrifoldeb dros sicrhau gwasanaethau Gymraeg ar ddarparwyr gwasanaethau yn hytrach na'r unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaethau.

Mae gan y rhai sy'n siarad Gymraeg a'r rhai nad ydynt yn siarad Gymraeg ran i'w chwarae wrth ddarparu gwasanaethau Gymraeg.

Ystyr 'Cynnig Rhagweithiol' yw darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Dylai gwasanaethau Gymraeg fod ar gael i ddefnyddwyr gymaint â'r Saesneg.

Mae cynnig gwasanaethau Gymraeg yn rhagweithiol yn sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu deall a'u diwallu, a bod y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau gofal yn gallu dibynnu ar gael eu trin â'r parch ac urddas maen nhw'n ei haeddu.

Gall peidio â chynnig gwasanaethau Gymraeg yn rhagweithiol arwain at beryglu urddas a pharch pobl.

Egwyddor 2: Cofiwch gydnabod a chofnodi gwahanol fathau o ganlyniadau sy'n bwysig i bobl

27. Nod y dull o ymdrin â chanlyniadau personol yw sicrhau bod pobl yn cael cymorth i fyw'r bywydau gorau posibl, gan adeiladu ar eu galluoedd a'u cryfderau eu hunain. Rydym yn pennu canlyniadau personol trwy wrando ar bobl a thrwy gael sgysiau buddiol gyda phobl ynglŷn â beth sy'n bwysig iddynt. Gall sgysiau buddiol ynddynt eu hunain wella'r canlyniadau, er enghraifft rhywun i wrando ar yr unigolyn a gwneud i'r unigolyn deimlo'n werthfawr, gallant helpu i leihau pryder, a gallant ennyn gobaith a meithrin cymhelliant i newid.
28. Her allweddol i ymarferwyr sydd wedi gweithio mewn systemau dan arweiniad gwasanaethau yw newid o fod yn 'ddatryswr' (rhywun a gaiff ei gymell i ddatrys problemau i bobl) i fod yn 'hwylusydd' (rhywun sy'n gweithio ochr yn ochr â phobl i ddiffinio bywyd gwell a gweithio tuag ato).
29. Pan mae llunwyr polisiau a sefydliadau'n sôn am ganlyniadau, weithiau maent yn tybio bod angen i bethau newid, a bod angen cyflwyno gwelliannau. Er enghraifft, "gallu coginio fy mhrydau bwyd fy hun er mwyn i mi allu symud i fy fflat fy hun" neu "cryfhau digon er mwyn i mi allu dechrau mynd i'r gampfa unwaith eto". Mae yna le i ganlyniadau newid.

- 30.** Fodd bynnag, mae gwaith ymchwil gyda phobl sy'n cael cymorth gan wasanaethau gofal cymdeithasol (Nicholas et al 2003, Cook a Miller 2012) yn nodi nad newid yw'r elfen ganolog bob amser mewn perthynas â'r canlyniadau pwysicaf. I lawer o bobl, cadw pethau fel y maent, heb iddynt 'fynd i lawr yr allt', yw'r peth pwysicaf. Dyma enghreifftiau o ganlyniadau cynnal (neu ansawdd bywyd): **"Gallaf gadw mewn cysylltiad gyda fy merch trwy alwadau ffôn wythnosol, mae hynny mor bwysig i mi"** a **"rheoli fy asthma er mwyn i mi allu cario 'mlaen i chwarae gyda fy nghyfeillion yn y maes chwarae."**
- 31.** Ymhellach, mae pobl a gaiff gymorth gan wasanaethau gofal cymdeithasol yn sôn am bwysigrwydd canlyniadau proses, sef canlyniadau'n ymwneud â 'sut' caiff y gofal a'r cymorth eu darparu, yn hytrach na 'beth'. Mae enghreifftiau'n cynnwys **"Mae fy ngweithiwr cymorth yn gwneud i mi deimlo'n dda amdanaf fy hun, fel pe bawn i'n gallu gwneud pethau"** ac **"Mae fy rhiant maeth yn gwrando go iawn arna' i."**
- 32.** Wrth gofnodi canlyniadau personol, mae'n ddefnyddiol meddwl am ganlyniadau newid, canlyniadau cynnal a chanlyniadau proses (Nicholas et al 2003). Hefyd, mae'n golygu ymgysylltu â phobl a all fod yn wynebu amryfal heriau yn eu bywydau er mwyn ystyried sut beth fyddai bywyd gwell ac archwilio'r adnoddau sydd ganddynt o ran gweithio tuag at hyn. Mae hyn yn golygu rhoi cyfle i bobl ddod o hyd i'w llais mewn ffyrdd nad ydynt, o bosibl, wedi cael eu profiad o'r blaen.
- 33.** Mae gwrando go iawn ar bobl nid yn unig yn ein helpu ni i ddeall yr unigolyn a'i sefyllfa yn well, ond gall hefyd helpu'r unigolyn i'w ddeall ei hun. Mae yna gyfleoedd i newid hyd yn oed cyn i unrhyw ryngweithio ychwanegol gael ei ystyried, yn syml trwy ryngweithio ystyriol a galluogol a fydd yn gwneud i'r unigolyn deimlo fel pe bai'n cael ei weld a'i glywed.
- 34.** Rhywbeth allweddol a ddysgwyd yn sgil ymwreiddio canlyniadau dros sawl blwyddyn yw'r ffaith nad yw hi'n ddigon i ni ganolbwyntio ar newid y sgwrs yn unig. Mae'r hyn a gaiff ei gofnodi mewn systemau yn hollbwysig hefyd. Rydym eisoes wedi nodi'r manteision amrywiol sy'n perthyn i gofnodi. Trwy gael dadansoddiad ategol, gall cofnodion ddylanwadu hefyd ar benderfyniadau a wneir ynglŷn â bywydau pobl, pa un a fydd hynny mewn nodiadau achos, asesiadau, cynlluniau ategol a/neu adolygiadau.
- 35.** Gellir casglu a choladu'r cofnodion hyn i weld pa bethau sy'n gweithio'n dda a pha bethau nad ydynt yn gweithio cystal mewn ardaloedd lleol ac mewn sefydliadau, er mwyn gallu llunio penderfyniadau.

Egwyddor 3: Adeiladwch ar gryfderau pobl ac ewch ati i bennu risgiau pwysig

- 36.** Wrth weithio gyda phobl mewn sefyllfaoedd heriol; hawdd iawn yw canolbwyntio ar y pethau sy'n mynd o chwith yn hytrach nag ar y pethau sy'n mynd yn dda.
- 37.** Mae 'Arwyddion o Ddiogelwch' (Munro et al 2016) yn un dull o lunio cofnodion mewn gwaith cymdeithasol, a chaiff ei ddefnyddio mewn amrywiaeth o awdurdodau lleol ledled Cymru. Mae adolygiad o'r dull hwn ar gael ar [wefan](#) What Works for Children's Social Care.
- 38.** Dull 'Arwyddion o Ddiogelwch' o asesu a chynllunio mewn cofnodion diogelu plant:

Beth sy'n gweithio'n dda?**Beth ydym yn bryderus yn ei gylch?**

- Niwed yn y gorffennol
- Pryderon ar hyn o bryd
- Ffactorau sy'n cymhlethu

Beth sy'n rhaid digwydd?

- Barn y plentyn
- Barn y teulu
- Barn yr ymarferydd

39. Dyma enghraifft o gofnodi cryfderau mewn teulu a gaiff gymorth gan y gwasanaethau yn un o awdurdodau lleol Cymru (ni ddefnyddir yr enw iawn):

Risgiau sy'n bodoli	Cryfderau yn y teulu
Gall Aled golli rheolaeth arno'i hun pan fydd yn teimlo'n ddig a gall hyn fod yn risg i bobl eraill.	Mae Aled yn ddarllenwr gwyb ac mae wedi darllen rhai llyfrau rhagorol. Mae eisiau parhau i ddarllen llyfrau da.
Os bydd Aled yn teimlo'n ddig pan fydd yn y car, gall yr hyn a wna ei roi ef ei hun (agor drws y car) neu bobl eraill (pe bai sylw ei fam yn cael ei dynnu oddi ar y gyrru) mewn perygl.	Mae Aled yn hoffi gwranddo ar gerddoriaeth ac mae hyn yn ei helpu i ymlacio. Weithiau, gall gwranddo ar gerddoriaeth cyn iddo fynd i'w wely ei helpu i gysgu.
Pan mae Aled yn ddig, gall ddweud pethau cas.	Mae Aled yn caru ei chwaer yn fawr, ac mae'n gofalu amdani.
Yn yr ysgol mae Aled, fel arfer, yn ymddwyn yn dda iawn, ond pan fydd yn colli'i dymer mae'r ysgol yn ffonio'i fam ac yn gofyn iddi ei nôl.	Mae Aled yn mynd at ei dad ddwywaith neu dair yr wythnos ac mae'n mwynhau mynd yno. (Er, mae'r trefniadau ymweld yn anodd eu rhagweld, oherwydd dim ond rhybudd byr y gall ei dad ei roi ar gyfer ymweliadau Aled.)
Nid oes gan Aled 'fan diogel' i fynd iddo i ymbwyllo. Mae'n rhannu ei ystafell wely, felly nid yw'r fan honno yn fan diogel delfrydol.	Mae mam Aled wedi ymgysylltu yn wirioneddol dda â'r cymorth proffesiynol. Mae hi wedi bod yn rhoi rhywfaint o'r pethau a ddysgodd ar waith, ac mae Aled yn ymateb yn dda i hyn.

Egwyddor 4: Gwnewch y cofnod yn glir ac yn gryno

- 40.** Wrth lunio cofnodion cryno a chymesur, dim ond i'r graddau y bo'n angenrheidiol i gael darlun clir o anghenion a chanlyniadau'r unigolyn yr eir i'r afael â gwaith ymwthiol. Rydym angen digon o wybodaeth am ddigwyddiadau, amgylchiadau, cryfderau, risgiau pwysig a chraidd y mater o safbwynt y bobl dan sylw; rhaid i'r cofnod ddangos sut mae'r elfennau hyn i gyd yn dylanwadu ar y penderfyniadau a wneir. Mae 'gorgofnodi' yn digwydd pan fydd yna bryder yn ymwneud â sefyllfa unigolyn, lle caiff yr arfer o ysgrifennu pob manylyn ei ystyried fel ffordd o ymateb i unrhyw fai yn y dyfodol. Ond gall gorgofnodi arwain at golli manylion pwysig (Ames 1999). Gwelir bod y baich cofnodi'n arbennig o uchel mewn cartrefi gofal:

'We found that regulators and commissioners assume that residents benefit from the completion of paperwork. Yet the indications are that residents, rather than being the beneficiaries of regulatory regimes and their accompanying paperwork, are often at their mercy. Not only is it possible to comply with paperwork while failing to provide good-quality care, responding to regulatory and commissioning requirements can also actively prevent delivery of good care in some instances.....The balance between prevention of poor care and promotion of good care appears to be out of kilter. Care homes spend an inordinate amount of time attempting to cover themselves for fear of potential blame or litigation for poor care'. (Warmington et al 2014, t31) Dyfyniad Saesneg yn unig.

- 41.** Ysgrifennwyd y cynllun cymorth canlynol gan unigolyn a oedd yn gadael yr ysgol. Roedd gan yr unigolyn hwn awtistiaeth, roedd yn cael trafferthion ac roedd wedi mynd i dwll. Esboniodd ei weithiwr wrtho beth oedd canlyniadau. Nododd Oliver ar ddu a gwyn beth oedd yn bwysig iddo a lluniodd y cynllun 46 gair canlynol:

go out by my self
walk to the shop
Be able to communicate with people more
To control my temper better
To be less worried
Learn how to drive
Get a job perhaps relating to
History
To feel good about myself
Accept peoples help more often

Mynd allan ar ben fy hun

Cerdded i'r siop

Gallu cyfathrebu mwy â phobl

Rheoli fy nhymer yn well

Poeni llai

Dysgu gyrru

Cael swydd, efallai un sy'n ymwneud â hanes

Teimlo'n dda amdana i fy hun

Derbyn cymorth pobl yn amlach

- 42.** Efallai eich bod yn gofyn tybed pa gymorth sydd ar gael i sicrhau y bydd Oliver yn ddiogel ac yn cael ei gefnogi. Yn yr adran Ymarferion gallwch ddod o hyd i ymarfer i ategu gwaith myfyrio tîm yn ymwneud â chynllun Oliver a chanolbwyntio ar beth sy'n bwysig.

Gwnewch yn siŵr fod y cofnod yn ddadansoddol

Mae arddangos gwaith dadansoddi a phenderfyniadau cysylltiedig wrth galon a chraidd yr arfer o lunio cofnodion da sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau personol. A ninnau eisoes wedi trafod pa mor bwysig yw pennu risgiau pwysig dan Egwyddor 3, mae hi'n bwysig cydnabod pa mor bwysig yw ymhél â'r risgiau hyn, a'u dadansoddi, wrth roi dull canlyniadau personol ar waith mewn perthynas ag ymarfer a chofnodi.

Cyn mynd yn eich blaen i drafod rhai egwyddorion allweddol yn ymwneud â chofnodion dadansoddol, awgrymwyn felly eich bod yn archwilio rhai o'r egwyddorion allweddol yn ymwneud â chydbwysio hawliau, risgiau a chyfrifoldebau, fel y nodir yng nghanllawiau Gofal Cymdeithasol Cymru. Er bod yr egwyddorion hyn wedi'u datblygu yng nghyd-destun gwasanaethau i oedolion, gellir eu trosglwyddo i wasanaethau plant a theuluoedd. Gweler Atodiad 2.

Egwyddor 5: Gwnewch yn siŵr fod y cofnod yn gywir – gwahaniaethwch rhwng ffaith a barn

- 43.** Ni waeth pwy yw'r gynulleidfa arfaethedig, rhaid i bob cofnod fod yn gywir a rhaid gwahaniaethu'n glir rhwng ffaith a barn. Nid yw cynnwys barn sy'n deillio o amrywiol ddisgyblaethau yn broblem ynddo'i hun. Gall cofnodion da gynnwys ffeithiau a barnau, ond dylid gwahaniaethu'n glir rhwng y ddau beth. Mae hi'n iawn i chi gynnwys argraffiadau a gawsoch yn ystod rhyw gyfarfod, ond os nad ewch ati i nodi'r gwahaniaeth rhwng barn a ffaith, gall hyn wneud eich cofnodion yn llai credadwy.
- 44.** Er enghraifft, mae'r datganiad 'Nid oedd Peter eisiau ymgysylltu â mi' yn rhoi'r argraff mai barn yw hynny. Trwy esbonio rhywfaint mwy, gellir cryfhau'r datganiad: 'Roedd Peter yn osgoi edrych arna i yn ystod y cyfarfod a rhoddodd atebion byr iawn i'm cwestiynau.' Efallai nad oedd Peter yn awyddus i ymgysylltu â'r sawl a oedd yn ysgrifennu'r cofnod hwn, efallai fod Peter yn awtistig a'i fod yn cael anawsterau mawr gyda'r math hwn o gyfweiliad, neu efallai fod rhywbeth arall yn digwydd ym mywyd Peter.

Egwyddor 6: Gwnewch yn siŵr fod y cofnod yn gydgyhyrchiol – cofiwch ddarparu ar gyfer safbwyntiau gwahanol a chofiwch gynnwys safbwyntiau o'r fath

- 45.** Er mwyn cael perthnasoedd gweithio moesegol gyda phobl sy'n gysylltiedig â gwasanaethau ar sail anwirfoddol, rhaid deall eu safbwynt. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i chi ystyried eu barn wrth fynd ati i ddadansoddi a gwneud penderfyniadau.

Ymwelais â Mark a Lisa am yr eildro ers i'r ymwelydd iechyd ffonio a mynegi pryder ynglŷn â'r ffaith eu bod yn camddefnyddio alcohol a diazepam, a'r effaith a gaiff hyn ar Holly (blwydd oed). Roedd Holly ei hun mewn iechyd da. Roedd yn chwarae gyda Duplo ac yna syrthiodd i gysgu ar lin ei mam yn ystod yr ymweliad. Ar ôl i Holly fynd i'w chot, dywedodd Mark fod y ddau wedi ymlâdd o ganlyniad i'r ymweliad cyntaf, a'u bod eisiau cael gwared â ni (gwasanaethau iechyd a gwaith cymdeithasol) o'u bywydau. Pan ddywedais fy mod innau eisiau gadael eu bywydau hefyd, a'n bod yn cychwyn o'r un lle â'n gilydd, roedd Mark wedi'i synnu. Cytunodd yn ochelgar y gallem, o bosibl, ystyried hynny fel man cychwyn ar gyfer canlyniad y gallai pob un ohonom weithio tuag ato, ochr yn ochr â'r angen i sicrhau bod Holly yn ddiogel ac yn iach.

- 46.** O dro i dro, mae gweithio gyda theuluoedd neu unigolion ar sail anwirfoddol yn gallu gwneud i weithwyr proffesiynol deimlo'n amddiffynnol, gan eu bod yn disgwyl tensiwn a gwrthdaro. Mae pob sefyllfa'n wahanol, ond yn aml bydd siarad plaen yn cael ei werthfawrogi, gan fod nifer o deuluoedd eisiau gwybod beth yn union yw'r sefyllfa. Mae gwaith gyda theuluoedd lle mae'r rhieni'n camddefnyddio sylweddau yn awgrymu bod sefydlu ymddiriedaeth yn bwysig er mwyn gallu pennu cryfderau a meysydd i'w datblygu ac er mwyn gallu mynd i'r afael â chyfrinacholdeb ac achosion o wadu:

'Establishing a trusting relationship with the family is critical to being able to work with them towards outcomes that will be truly helpful rather than outcomes based on what the parent believes is safe to admit to needing help with' (Collins 2011). *Dyfyniad Saesneg yn unig.*

47. Gall fod yn her, ond trwy ddod o hyd i achos neu ganlyniadau cyffredin ymhlith barnau croes bydd modd cyflwyno cyfleoedd i ddatblygu perthynas weithio. O ran gwaith gyda phlant a theuluoedd, mae'n bwysig parhau i ganolbwyntio ar y plentyn yn ystod y gwaith, ynghyd â chanolbwyntio ar gynorthwyo'r rhieni i gyflawni canlyniadau er budd eu plant. Gallai hyn gynnwys lleihau'r effaith a gaiff y camddefnyddio sylweddau ar y plentyn neu leihau angen y rhieni i gamddefnyddio sylweddau trwy wella eu gallu i ymdopi gyda sefyllfaoedd dyrys fel rhiant (Collins 2011).

Mae'n bwysig nodi yn y fan hon y gall canlyniad personol y rhiant fod yn gadarnhaol, ond y bydd y pryderon diogelu'n parhau mewn perthynas â'r plentyn. Er enghraifft, efallai y bydd y rhiant yn dweud ei fod yn defnyddio llai o ganabis bob diwrnod erbyn hyn. Fodd bynnag, efallai y bydd angen ymdrin â materion diogelu o hyd os yw'r plentyn yn ifanc iawn a/neu os oes ganddo anghenion ychwanegol ac os yw, felly, yn ddibynol iawn ar y rhiant hwnnw i ddiwallu ei anghenion.

48. Mae'r un egwyddorion yn berthnasol wrth weithio gydag oedolion. Wrth weithio gyda phobl, gall fod yn ddefnyddiol nodi o'r cychwyn cyntaf mai'r delfryd yw eu galluogi/cynorthwyo i reoli eu bywydau eu hunain cyn belled ag y bo modd. Yn y cyfamser, disgwylir yn aml i wahanol safbwyntiau ddod i'r amlwg wrth drafod heriau cymhleth bywyd. Wrth gydnabod gwahaniaethau barn, byddai'n fuddiol peidio â meddwl am y peth fel rhywbeth negyddol a all arwain at broblemau, gan ei ystyried yn hytrach fel rhywbeth cadarnhaol a all gynnig cyfle i drafod rhai o'r cymhlethdodau. Gall sgiliau cyfryngu fod yn ddefnyddiol iawn yn y sefyllfaoedd hyn. Yn arbennig, trwy sicrhau bod pawb yn cael cyfle i ddweud ei ddweud gellir ategu cyd-ddealltwriaeth o'r sefyllfa, ynghyd â'r posibilrwydd o ddod o hyd i ffordd o symud ymlaen. Mae bod yn dryloyw ynglŷn â sut caiff gwahaniaethau eu cofnodi, yn ogystal â chynnwys pryderon diogelu, yn gallu bod yn ddefnyddiol o ran crisialu'r materion i'r bobl dan sylw, a gall defnydd ystyriol o gofnodion gyfrannu at drafodaethau.

Egwyddor 7: Cofnodwch 'pam', nid yn unig 'beth' a 'sut', a dangoswch y cysylltiad â'r penderfyniadau a wneir

49. Un o'r manteision mawr sy'n perthyn i ganolbwyntio ar beth sy'n bwysig i bobl yw'r ffaith ei fod yn golygu bod y penderfyniadau a'r camau'n cael eu hysgogi gan flaenoriaethau'r unigolyn, yn hytrach na chan dybiaethau ynglŷn â beth a allai ddatrys y sefyllfa. Ar ôl deall y diben hwn, gellir dod i gytundeb ynglŷn â sut i weithio tuag at y canlyniadau ar y cyd.

50. Yn aml, bydd y sgysiau pwrpasol hynny yn digwydd mewn ymarfer. Fodd bynnag, nid yw'n anghyffredin gweld rhestr o atebion gwasanaeth ar ffurf cynllun. Mae cymryd cam yn ôl i ateb y cwestiwn 'pam' yn gwneud gwahaniaeth. Felly, yn hytrach na chofnodi'r canlynol fel canlyniad:

Atgyfeiriwyd Sarah at y caffi dementia

51. Fe allem ysgrifennu:

Mae Sarah eisiau cyfarfod â phobl newydd mewn lle na fydd ei phroblemau cof yn codi cywilydd arni

52. Mae gwybod beth sy'n bwysig i Sarah yn helpu i esgor ar benderfyniadau gwell. Mae'n golygu y gellir ystyried dewisiadau amgen pe na bai'r opsiwn cyntaf ar gael. Hefyd, mae'n golygu y gellir monitro'r cynnydd o ran a yw'r canlyniad yn gwella ai peidio, gan roi sylw hefyd i ganlyniadau anfwriadol neu newydd.

Atgyfeiriwyd Rick at grŵp cefnogaeth gan gymheiriaid

53. Yn hytrach, fe allem ysgrifennu:

Dywedodd Rick wrthym ei fod yn teimlo'n ynysig iawn yn yr ysgol ac nad oedd yn siŵr sut i gyfathrebu gydag eraill. Mae Rick a'i fam wedi dweud wrthym y gallai Rick elwa ar gyfarfod â phlant eraill yn eu harddegau a chanddynt awtistiaeth a siarad am rai o'r heriau mae'n eu hwynebu, tra'n cael 'rhywfaint o hwyl' yr un pryd. Felly, rydym wedi cyfeirio Rick at grŵp cefnogaeth gan gymheiriaid, ac ar ôl y cyfarfod cyntaf fe ffoniodd mam Rick i ddweud ei fod 'wedi mwynhau pob munud'.

Mae'n bwysig nodi yn y fan hon fod gan gofnodion achos gynulleidfaoedd amrywiol. Dengys profiad fod y farnwriaeth, yn arbennig, yn hoffi gweld manylion ynglŷn ag ymwneud y gwasanaeth. Gellir cofnodi hyn ochr yn ochr â'r canlyniadau personol, felly bydd y cofnod yn cynnwys 'beth' a 'sut' mewn perthynas ag unrhyw ymyriad, yn ogystal â'r rhesymau pam y gwnaed y penderfyniad hwnnw. Er enghraifft, "Erbyn hyn, ddwywaith yr wythnos mae Pete yn mynychu grŵp cefnogaeth gan gymheiriaid a gaiff ei redeg gan asiantaeth Newstart er mwyn rheoli ei ddibyniaeth ar alcohol, ac mae ef eisiau: 'dal fy mhen yn uchel unwaith eto yn y gymuned hon'."

Gwerthfawrogi'r sgwrs sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau personol o fewn y cofnod

54. O ran ysgrifennu cofnodion achos a chynlluniau cymorth, mae adborth gan wahanol sefydliadau'n awgrymu bod yna duedd o hyd i ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar ganlyniadau neu atgyfeiriadau at wasanaethau. Nid yw sgysiau medrus bob amser yn cael y clod a haeddant o ran cyfrannu at ganlyniadau da i bobl. Yn aml, mae meithrin perthynas ac ymddiriedaeth yn gam cyntaf pwysig tuag at helpu rhywun i bennu beth sy'n bwysig iddo yn ei fywyd.

55. Mae'r enghraifft ganlynol yn deillio o gofnodion a luniwyd gan sefydliad cymorth i ofalwyr, lle disgrifir y cyswllt cyntaf gyda thad plentyn ag awtistiaeth. Mae'r gweithiwr cymorth yn crynhoi pam mae'r gofalwr wedi galw'r gwasanaeth. Mae'r dyfyniad gan y gofalwr yn helpu i ddod â'r nodiadau'n fyw, gan gynorthwyo i ddangos sut mae'r gofalwr yn teimlo. O gofio'r sefyllfa, mae'r gweithiwr cymorth o'r farn fod angen cynnal sgwrs fanylach er mwyn darganfod beth sy'n bwysig i'r teulu.

Y sefyllfa: Mae'r gofalwr yn poeni y bydd ei wraig a'i fab, sy'n dal i fod yn yr ysgol, yn cael eu hynysu'n gymdeithasol, a dywed y byddai'r tri ohonynt yn hoffi cysylltu â theuluoedd eraill a chanddynt blant awtistig.

Geiriau'r gofalwr: "Fe hoffwn wybod sut gallwch chi ein helpu, oherwydd dydyn ni ddim yn cael unrhyw gymorth ar hyn o bryd."

Yr ymyrraeth: Cynnal sgwrs 'beth sy'n bwysig' (ar ôl 4pm) er mwyn gweithio gyda'r teulu a darganfod beth yw eu canlyniadau

56. Yn yr enghraifft nesaf, mae gweithiwr gymdeithasol yn nodi canlyniadau'r sgwrs a gafodd gyda mam mewn teulu arbennig. Mae'r gwasanaethau wedi ymhél llawer â'r teulu hwn yn ddiweddar gan fod y mab hynaf yn aelod o gang:

Yn ôl y trefniant, cefais ymweliad byr gyda Karen yr wythnos hon, tra'r oedd ei meibion yn yr ysgol. Yn dilyn cyfres o bethau a ddigwyddodd cyn fy ymweliad yr wythnos diwethaf, roedd Karen wedi bod yn bryderus iawn, yn enwedig ynglŷn â'r ffaith fod Leo wedi cael ei gadw dros nos yng ngorsaf yr heddlu. Yn ôl Karen, roedd y sgwrs a gawsom wedi peri iddi feddwl, ac roedd hi eisiau siarad mwy am y dyfodol. Dywedodd mai dyma'r tro cyntaf i rywun ofyn iddi beth oedd hi ei eisiau mewn bywyd. Fe wnaethom gytuno y buaswn yn dychwelyd ddeuddydd yn ddiweddarach i gael sgwrs hirach – am ei bywyd a'r angen i reoli'r heriau mae'r plant wedi bod yn eu hwynebu. Eisoes, mae hi'n ymddangos yn fodlonach ac mae hi'n gwybod y gall ffonio'r swyddfa pe bai angen.

57. Dengys yr enghraifft hon fod y gweithiwr cymdeithasol wedi pennu blaenoriaethau'r fam, a bod cydnabod y blaenoriaethau hyn eisoes wedi gwneud gwahaniaeth i Karen. Mae hi'n awgrymu ei bod hefyd wedi cadarnhau'r angen i ystyried ac asesu canlyniadau Karen a chanlyniadau'r plant, a'i bod wedi dod i gytundeb ynglŷn â ffocws y sgwrs barhaus. Gwelir cydbwysedd yma rhwng cynnal a sicrhau'r rôl ddiogelu a chanolbwyntio ar ganlyniadau. Mae hi'n cofnodi'r cam nesaf a sut mae'n cyd-fynd â'r canlyniadau.

Mynd y tu hwnt i ddisgrifio – dadansoddi mewn cofnodion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau

58. Mae cofnodion yn rhyw fath o bont rhwng yr wybodaeth a gesglir a'r sgysiau a gynhelir mewn ymarfer gofal cymdeithasol ar y naill law, a'r penderfyniadau a wneir ynghylch sut bydd y gwasanaethau'n ymwneud â bywydau pobl, os o gwbl, ar y llaw arall. Er mwyn gallu gwneud penderfyniadau da, rhaid i weithwyr proffesiynol ddehongli'r holl wybodaeth sydd ar gael er mwyn llunio barn a llywio argymhellion. Rydym eisoes wedi nodi y gall ymarferwyr deimlo dan bwysau i gofnodi manylion yr holl weithgareddau. Caiff hyn ei alw'n gofnodi disgrifiadol. Ond rydym eisieu gweld cofnodi dadansoddol hefyd.

59. Yn ôl yr Adran Addysg (2015), mae dadansoddi'n golygu gwahaniaethu rhwng ffaith a barn, defnyddio amryfal ddamcaniaethau, rhoi ffyrdd greddfoll a rhesymegol o feddwl ar waith, a mynegi'r rhesymeg sydd wrth wraidd casgliadau a phenderfyniadau.

60. Crëwyd un adnodd defnyddiol i ategu'r gwaith o lunio cofnodion dadansoddol gan Research in Practice for Adults (RIPfA) rai blynyddoedd yn ôl, yn cynnwys eu 'hegwyddorion sylfaenol' ar gyfer ategu asesiadau dadansoddol yn y gwasanaethau cymdeithasol. Rydym wedi ychwanegu cryfderau, risgiau pwysig a chanlyniadau at y rhain:

61. Egwyddorion sylfaenol ar gyfer asesiadau dadansoddol (Addasiad o Brown et al 2002)

- Beth yw pwrpas yr asesiad?
- Beth yw'r stori?
- Beth mae'r stori yn ei olygu?
- Beth yw'r cryfderau?
- Beth yw'r risgiau pwysig?
- Beth yw'r canlyniadau arfaethedig?
- Beth sy'n rhaid digwydd?
- Sut byddwn yn gwybod ein bod yn gwneud cynnydd?

62. Hoffem ychwanegu hefyd ei bod hi'n angenrheidiol i chi ddangos y camau a'r syniadau sy'n sail i'ch argymhellion/penderfyniadau. Cydnabyddwn y gall lluo o resymau gwahanol, yn cynnwys llwythi achosion trwm, fod wrth wraidd unrhyw brinder dadansoddi; ond os caiff gwaith dadansoddi ei gynnwys yn y cofnodion achos, bydd yn gwella'r penderfyniadau a wneir ym mhob maes.

Dangos eich proses weithio mewn cofnodion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau personol

63. Er mwyn llunio cofnodion dadansoddol mae'n ofynnol i ymarferwyr ddangos sut maent wedi symud trwy'r broses o gasglu ffeithiau, gwybodaeth, tystiolaeth a barn, tuag at wneud penderfyniadau. 'Dangos eich proses weithio' y gelwir hyn. Os cofiwch faint o bwyslais a roddid ar ddangos eich proses weithio mewn rhifydddeg yn yr ysgol, mae'r un rheol yn berthnasol yn y fan hon.

64. Nid yw cyflwyno casgliad o ffeithiau byth yn ddigon. Os ceir disgrifiad heb ddadansoddiad, mae hi'n anodd deall sut a pham cafodd penderfyniadau hollbwysig eu gwneud. Rhaid gofyn cwestiynau ynglŷn â'r hyn mae'r wybodaeth a gasglwyd yn ei olygu. Mae elfen o ddehongli yn perthyn i hyn, a dyma'r broses weithio y bydd yn rhaid i chi ei nodi. Pa agweddau a allwch gyflwyno

tystiolaeth glir yn eu cylch a pha agweddau sy'n fwy petrus (trowch eich meddwl yn ôl at y ffeithiau a'r barnau), a sut mae hyn yn dylanwadu ar y penderfyniadau a wnaed a'r barnau proffesiynol y daethpwyd iddynt?

Dangoswch y ffordd y daethoch at eich ateb; o rifyddeg i gofnodi achos



cyfweliadau
ffeiliau achos
arsylwadau
tystiolaeth ymchwil
damcaniaethau

argraffiadau
trafodaeth gyda
cydweithwyr/rheolwr
barn
argymhellion



65. Caiff y gwaith dadansoddi sydd wrth wraidd penderfyniadau ei hepgor yn aml o gofnodion, yn enwedig pan mae'n rhaid gwneud penderfyniadau'n gyflym. Mae cofnodi a chofnodion yn cynnig cyfle i asesu anghenion, monitro cynnydd, gwerthuso effeithiolrwydd ymyriadau a phennu patrymau nad ydynt, efallai, yn amlwg yn syth. Mae gwaith Iriss (2020) yn argymhell y dylai cofnodion ddangos y rhesymeg sydd wrth wraidd penderfyniadau i BEIDIO â chymryd camau, yn ogystal ag esbonio penderfyniadau i weithredu.

Trwy ddangos bod dewisiadau amgen wedi'u pwysu a'u mesur a'u dadansoddi, gellir sicrhau bod y broses asesu risg yn glir, ond hefyd mae'n ffordd o ddogfennu pam nad aethpwyd i'r afael ag opsiynau eraill. Gall hyn fod yn ddefnyddiol i ddarllenwyr y dyfodol, yn ogystal ag i wasanaethau eraill, e.e. esbonio pam na fu modd i berson ifanc fynd i ofal ei berthnasau er bod ei fodryb yn byw gerllaw, a pham yr aeth i gartref plant yn lle hynny.

- Pam 1: Pam cafodd y penderfyniad ei wneud? (dylid nodi'r rhesymeg wrth wraidd y penderfyniad, e.e. er mwyn cyflawni canlyniadau penodol neu weithio tuag atynt)
- Pam 2: Pam na fu modd rhoi dulliau gweithredu amgen ar waith? (Iriss 2020)

Egwyddor 8: Cofnodwch yr hyn a ddysgwyd wrth fyfyrrio ar y canlyniadau adeg eu hadolygu


- 66.** Gall amgylchiadau bywyd newid ac ni fydd cynlluniau'n gweithio yn ôl y disgwyl bob amser. Hefyd, gall yr hyn sy'n bwysig i bobl newid ac weithiau bydd y canlyniadau'n wahanol i'r rhai a ragwelwyd. Felly, mae hi'n bwysig i'r adolygiadau fod yn agored ac yn archwiliol, yn hytrach na'u bod yn gaeedig ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau gosodedig yn unig.
- 67.** Nodwedd allweddol ar adolygiadau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yw'r pwyslais a roddir ar adolygu'r canlyniadau a nodir yn y cynllun – nid adolygu faint o wasanaethau ac ymyriadau yr aethpwyd i'r afael â nhw yn unig. Efallai hefyd fod canlyniadau anfwriadol (rhai negyddol neu rai cadarnhaol) wedi dod i'r amlwg. Er enghraifft, yn sgil un newid – megis gwneud cyfaill newydd trwy gymryd rhan mewn cynllun gwirfoddoli – efallai y bydd yr unigolyn hwnnw'n teimlo'n llawer mwy hyderus ac yn llawer mwy atebol i ymdopi nag o'r blaen.
- 68.** Mae yna ystyriaethau eraill hefyd – er enghraifft, mae'r canlyniadau wedi newid ac mae hyn yn arwain at newidiadau yn adolygiad y cynllun. Neu efallai fod y canlyniadau'n cael eu cyflawni,

ond bod pryder iechyd newydd wedi dod i'r amlwg, ac mae angen cynnal trafodaeth i rwystro'r pryder iechyd rhag gwaethgu. Trwy ganolbwyntio ar ganlyniadau wrth adolygu cofnodion, gellir gwneud penderfyniadau ynghylch a oes angen cymorth, ac os felly, sut fath o gymorth. Yn yr adran Ymarferion cewch weld gofalwr yn myfyrio ar ei sefyllfa a'r hyn y byddai'n dymuno'i weld mewn cynllun cymorth pe bai cynllun o'r fath wedi'i gynnig iddo.

Gwnewch yn siŵr fod y cofnod yn 'fyw' a bod cofnodion ar draws pob sefydliad yn cael eu cysylltu gyda'i gilydd

Egwyddor 9: Gwnewch yn siŵr fod y cofnod yn ymatebol i siwrnai'r unigolyn – cofiwch gyfleu ei stori

69. Her allweddol yn ymwneud â chanlyniadau yw'r disgwyliad afrealistig y bydd ymyriad yn arwain yn syth at ganlyniad penodol. Mewn gwirionedd, gwyddom fod amryfal ffactorau, dros amser, yn effeithio ar ganlyniadau pobl o ran iechyd, llesiant ac ansawdd bywyd. Gall fod yn ddefnyddiol meddwl am gyfraniadau wrth ddeall beth sy'n dylanwadu ar ganlyniadau, ynghyd â'r rôl sydd gan wahanol gyfranwyr dros amser. Er bod y cyfraniadau hyn yn gallu amrywio (yn cynnwys cyfraniadau sy'n gysylltiedig â chanlyniadau proffesiynol), yr unigolyn sy'n berchen ar y canlyniad personol. Dyma enghraifft: y peth pwysig i Rhodri yw – **Hyder i gerdded yn yr awyr agored unwaith eto a gallu treulio amser gyda'i gyfeillion ar ôl cael ei anafu'n ddifrifol mewn damwain car**



70. Cofnodi'r siwrnai tuag at y canlyniad:

Yn ystod y sgwrs gyntaf gyda'r gweithiwr cymdeithasol ynglŷn â 'beth sy'n bwysig', daeth yn amlwg mai'r hyder i fentro allan i'r awyr agored yw'r peth pwysicaf i Rhodri (17). Dywedodd ei fod yn brin iawn o hyder gan ei fod ofn cael anaf pellach, "**mae'r waliau'n cau amdana' i ac mae hynny'n fy ngwneud yn isel fy ysbryd**". Mae Rhodri eisiau mynd hwnt ac yma unwaith eto a gweld ei gyfeillion yn eu mannau cyfarfod arferol. Hefyd, mae'n fodlon ystyried gwahanol opsiynau ac mae'n awyddus i weithio gyda'r gwasanaethau i'w helpu i deimlo'n fwy hyderus i wella.

71. Pan mae'r ffisiotherapydd yn mynd i weld Rhodri wythnos yn ddiweddarach i drafod ymarferion cryfhau, mae hyder Rhodri yn dal i fod yn isel. Mae'r gweithiwr cymdeithasol wedi sôn wrth y ffisiotherapydd yn ei gohebiaeth am yr hyn sy'n bwysig i Rhodri, ac mae'r ffisiotherapydd yn sôn wrtho am y bwriad i fynd allan yn ystod ei hymweliad ac wrth gynllunio'i ymarferion. Ar ôl yr ymweliad, dywed Rhodri fod ganddo "**rywfaint o obaith**", ac mae'n fodlon gweithio'n galed i gyflawni hyn.

- 72.** Pan mae'r ffisiotherapydd yn dychwelyd bythefnos yn ddiweddarach, dywed Rhodri fod ei hyder wedi gwella a'i fod wedi gweithio'n galed er mwyn teimlo'n ddigon diogel i fynd am dro yn y gerddi cymunol y tu allan i gartref ei deulu.
- 73.** Wythnos yn ddiweddarach, caiff hyder Rhodri ei dolcio gan ei fod yn dioddef symptomau tebyg i ffliw sydd wedi troi'n haint ar y frest – gan ohirio'r cynnydd a pheri iddo **“deimlo'n ddigalon eto”**.
- 74.** Ar ôl cwrs o wrthfotigau, mae Rhodri yn gwella ar ôl yr haint, ac er ei fod yn teimlo'n well ynddo'i hun mae ei hyder mewn cerdded wedi edwino unwaith eto. Mae'n gofyn i'r gweithiwr cymdeithasol a oes modd i'r ffisiotherapydd ddod draw i'w weld eto, oherwydd y tro diwethaf roedd hi wedi llwyddo i wneud i Rhodri deimlo'n **“ddigon diogel i gamu trwy'r drws”**. Mae ei hyder yn dechrau gwella unwaith eto oherwydd mae'n ddigon da i gamu allan i'r ardd am y tro cyntaf ers pythefnos.
- 75.** Dengys yr enghraifft hon y peryglon sydd ynghlwm wrth ddibynnu'n llwyr ar ddulliau rhy syml sy'n defnyddio offer i fesur 'y pellter a deithiwyd', fel Outcomes Star, yn ogystal â phriodoli'r cynnydd i un person neu un ymyriad.
- 76.** Gallwch ddod o hyd i ymarfer wedi'i seilio ar Rhodri yn yr adran Ymarferion, er mwyn eich helpu i ystyried sut gellir parhau i ganolbwyntio ar ganlyniadau personol ar draws y system.
- 77.** Ffordd arall o sicrhau bod cofnodion yn 'fyw' a'u bod yn newid dros amser yw trwy ddefnyddio apiau amser real, yn enwedig apiau sy'n cefnogi cyfraniad ymarferwyr a'r bobl maent yn eu cynorthwyo.
- 78.** O ran cofnodi hanesion, gellir defnyddio apiau cyfryngau cymdeithasol i gyfleu ein bywydau mewn geiriau a lluniau, gan greu cofnod cyfoethog o'r hyn sy'n bwysig i ni. Gall cyfeillion o'n dewis weld y straeon hyn, gan ychwanegu eu sylwadau a'u hanogaeth eu hunain. Mae gan dechnoleg o'r fath botensial enfawr o ran cofnodi canlyniadau hefyd. Ymhellach, gall cylchoedd cefnogi (yn cynnwys cyfeillion, teuluoedd ac ymarferwyr) wneud sylwadau ar y cyflawniadau hyn a helpu i gynnig tystiolaeth ynglŷn â gwerth ac effaith y cymorth a ddarperir. Mae'r broses yn 'fyw', ac nid yw'n ddibynnol ar bobl yn rhannu gwybodaeth ar bapur. I weld enghraifft o'r dechnoleg hon ar waith, ewch i: <https://www.here2there.me.uk/>
- 79.** Cafodd y system ei threialu yn y Gwasanaethau Anabledd Dysgu fel rhan o Raglen Trawsnewid Gogledd Cymru yn 2020. Hefyd, cynhaliwyd treial yn Woodlands Cyfyngedig, sy'n rhedeg nifer o gartrefi plant therapiwtig yng Ngogledd Cymru.
- 80.** Mae James Dovey, sydd wedi cael profiad personol o'r system gofal, wedi creu ap tebyg. Gan ddysgu ar sail ei brofiad ei hun, ac mewn partneriaeth â gweithwyr cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin, mae wedi datblygu dull cydgyhyrchiol o gynllunio a chofnodi gofal a chymorth – dull sy'n gweithio i bawb. Gellir cael manylion yma: <https://muse.care/>

Sylweddolwch y gall 'canlyniad cynnal' fod yn rhywbeth cadarnhaol

- 81.** Her systematig allweddol yn ymwneud â chanlyniadau yw'r disgwyliad y bydd ymhél â'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn arwain bob amser at wella canlyniadau pobl. Nid yw'r ffocws hwn ar newid cadarnhaol bob amser yn bosibl. Er enghraifft, yn achos nifer o gyflyrau iechyd fe fydd y symptomau'n gwaethygu dros amser. Mewn achosion o'r fath, gall cynnal agweddau ar ansawdd bywyd fod yn gyflawniad arwyddocaol iawn:

Roedd Caitlin yn ymgodysu â'r ffaith na fyddai modd iddi fynychu ei grŵp cymorth gan ei bod wedi cael pyllau gwaeth yn ddiweddar. Ers iddi ddweud wrth yr aelodau eraill am hyn trwy gyfrwng y grŵp WhatsApp, maent wedi cytuno i gynnal cyfarfodydd wythnosol trwy ddefnyddio'r ap, ac mae Caitlin yn teimlo rhyddhad ynglŷn â'r ffaith y bydd modd iddi gadw mewn cysylltiad â phob un ohonynt. Mae hi'n ystyried aelodau'r grŵp yn gyfeillion, ac mae cadw mewn cysylltiad â nhw tra mae hi'n sal o fudd i'w llesiant.

Egwyddor 10: Gwnewch yn siŵr fod cofnodion ar draws pob sefydliad yn cael eu cysylltu gyda'i gilydd

- 82.** Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn mynnu bod yn rhaid gweithio'n ôl y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol wrth fynd ati i asesu a chomisiynu. Er gwaethaf y bwriad o roi'r unigolyn wrth galon y broses benderfynu ar draws y system, mae yna berygl y bydd yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn yn cael ei gollu mewn datganiadau safonedig ac ystrydebol, e.e. 'Rydw i eisiau teimlo'n ddiogel'. Mae Consortiwm Comisiynu Plant Cymru wedi gweithio'n galed i oresgyn y broblem hon trwy bersonoli'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol a chefnogi'r arfer o gofnodi canlyniadau o'r asesiad cyntaf hyd at y gwaith o gomisiynu a darparu'r gwasanaeth. Mae'r naratif personol a ganlyn gan ofalwyr maeth yn dangos y math o gofnod a all eu cynorthwyo i ddewis a gweithio gyda'r plant a gynorthwyant:

"I mi, y peth cyntaf yr hoffwn ei ddarllen ar y ffurflen yw portread teg o'r plentyn – y da a'r drwg. Beth am ddechrau gyda'r pethau da. Beth am ddechrau trwy gyflwyno cymeriad y plentyn y gofynnir i ni ei dderbyn i'n teulu. Beth mae'n hoffi ei wneud? Beth sy'n gwneud iddo chwerthin? Beth sy'n gwneud iddo wenu? Beth sy'n bwysig iddo? Beth sydd agosaf at ei galon? Beth mae'n hoffi ei wneud?"

Un tro, cefais ffurflen atgyfeirio'n ymwneud â phlentyn a oedd wedi bod yn byw mewn ysgol breswyl am 18 mis. Doedd yr un gofalwr maeth trwy'r wlad yn fodlon cymryd y bachgen hwn oherwydd natur gymhleth ei broblemau ymddygiadol. Doeddwn i'n synnu dim ar ôl darllen y ffurflen atgyfeirio – crynodeb o anobaith oedd hi. Roedden ni am ddweud "na", hyd nes i ni weld llun a oedd wedi'i gynnwys yn ddiweddar yn ei ffeil – llun a wnaeth yn yr ysgol. Ar frig y llun roedd y pennawd "Yn fy mreuddwydion?". Roedd y plentyn wedi gwneud llun ohono'i hun yn sefyll gyda dyn a menyw a chi o flaen tŷ, gyda'r gair "cartref" wedi'i ysgrifennu ar y drws. Roedd y llun yn cyfleu mil o eiriau – a dyma ni'n dweud "ie" yn syth.

- 83.** Mae enghraifft bwysig o gysylltu cofnodion ar draws sefydliadau mewn gwasanaethau i oedolion yn ymwneud â chomisiynu a darparu gofal cartref sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau personol. Ar hyn o bryd, caiff rhan helaeth o ofal cartref ei gomisiynu ar sail 'amser a thasg' (e.e. 30 munud i roi cawod i rywun a gwisgo amdano). Gall hyn lesteirio gofal ymatebol a chreadigol yn y cartref – gofal a allai, fel arall, gyflawni ystod ehangach o ganlyniadau ar gyfer y bobl a gynorthwyir. Yn ôl un rheolwr darparu gofal cartref sy'n gysylltiedig â'r grŵp cynghori:

"Rydw i'n credu bod ein llwyddiant yn seiliedig ar y ffaith nad ydym yn ceisio dehongli ychydig eiriau a nodir ar ffurflen gan weithiwr cymdeithasol. Rydym yn cynnal cyfarfod teirochrog rhwng y gweithiwr cymdeithasol, y darparwr a'r unigolyn. Dyma un o agweddau pwysicaf a mwyaf hanfodol ein gwaith, ac mae'n esgor ar ganlyniadau cadarnhaol. Gyda'n gilydd, rhaid i ni "glywed" a "gweld" yr unigolyn yn disgrifio'i ddymuniadau, a dyna wedyn beth rydym yn ei gynnwys yn y cynllun. Yn aml iawn, mae'r pethau bach y digwyddwn sylwi arnynt yn gwneud byd o wahaniaeth."

Dyma enghraifft o hyn:

Canlyniad a gofnodwyd gan weithiwr cymdeithasol: 'Mae Doreen yn cael profiadau plerusus a maethlon amser cinio'

Cofnod ymatebol gan y gofalwr cartref: 'Heddiw, fe wnaeth Doreen fwynhau cinio gyda dau arall sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a hynny mewn digwyddiad arbennig a drefnwyd gan yr eglwys leol – cafodd pob un ohonom amser gwych ac fe wnaeth Doreen gyfarfod â rhywun a oedd 20 mlŷnedd yn hyn na hi ac a arferai ei gwarchod pan oedd yn blentyn. Bu hynny'n goron ar y diwrnod. (Llwyddodd y gofalwr cartref i gyfuno'r amser a neilltuwyd i bob un o'r tri unigolyn hyn mewn un 'trip' niwtral o ran cost i'r tri.)

Gwnewch yn siŵr fod y cofnod yn gynhwysol

Egwyddor 11: Gwnewch yn siŵr fod y cofnod yn bersonol ar gyfer pobl ag anawsterau cyfathrebu

84. Sgyrsiau a rhyngweithio uniongyrchol gyda'r unigolyn yw'r ffordd orau o gasglu gwybodaeth am ddewisiadau a nodau'r unigolyn. Gall y teulu a'r bobl allweddol sy'n adnabod yr unigolyn gyflwyno gwybodaeth wrth gefn werthfawr. Fodd bynnag, mae pobl yn gyffredinol yn cael trafferth mynegi'r hyn sy'n bwysig iddynt ac efallai y bydd angen rhoi dulliau gwahanol ar waith. Er na all plant ifanc iawn ac unigolion heb sgiliau cyfathrebu geiriol siarad am eu teimladau, mae cofnodi arsylwadau'n dal i fod yn bwysig iawn. Cafodd yr enghraifft hon ei rhannu gan weithiwr cymorth sy'n gweithio gyda phobl ifanc ag anableddau dysgu:

Rydw i'n cofio enghraifft pan na chafodd canlyniad allweddol ar gyfer person ifanc ei gofnodi, ac roedd canlyniadau difrifol posibl ynghlwm wrth hyn. Roeddwn i'n gweithio gyda bachgen yn ei arddegau a chanddo anableddau dysgu. Daeth i fyw i'r cartref preswyl roeddwn i'n gweithio ynddo. Mewn rhai ffyrdd, roedd e fel pe bai'n ymgartrefu'n iawn, ond ar adegau yn ystod yr wythnos gyntaf dechreuodd ymddwyn mewn ffordd gythryblus, ac fe wnaeth e ymosod ar aelodau o staff ddwywaith. Sylwais fod pethau'n mynd o'u lle pan oedd yn yr awyr agored. Gofynnais iddo beth oedd wedi digwydd. Aeth â mi'n syth at ei gasgliad o geir tegan a chododd un car i'w ddangos i mi. O'r diwrnod hwnnw ymlaen, wnaethon ni ddim gadael y cartref heb gar, a dechreuodd ymgartrefu'n llawer gwell. Fe wnaethon ni gofnodi'r canlynol ar ei broffil personol:

Mae Nick yn mwynhau mynd i'r farchnad, mae'n mwynhau cerdded o amgylch gorsafoedd trên ac mae'n mwynhau mynd i'r ganolfan LHDT. Er mwyn iddo allu ymlacio, teimlo'n ddiogel a mwynhau'r triplau hyn, rhaid i Nick gael un o'i geir tegan gydag ef.

85. Mae'r enghraifft a ganlyn yn dangos canlyniadau a gofnodwyd ar gyfer dyn hŷn â dementia a chanddo sgiliau cyfathrebu geiriol cyfyngedig. Yn yr achos hwn, mae staff y cartref gofal yn derbyn gwybodaeth a gofnodwyd gan ofalwr o fewn y teulu, ac mae hyn yn eu helpu i ddod i adnabod y preswlydd newydd. Hefyd, maent yn sylwi ar newidiadau yn y ffordd mae'r unigolyn yn ymateb i gerddoriaeth, sy'n wahanol i'r modd y disgrifiwyd ei bersonoliaeth gan ei fab, sef ei ofalwr. Mae'r newid yn cyd-fynd â gwaith ymchwil sy'n dangos y gall rhai newidiadau cadarnhaol ddod i'r amlwg yng ngalluoedd, dewisiadau a chymeriad pobl trwy ddementia.

Cyn i ddementia ei dad ddatblygu, dywedodd Michael wrthym fod Hugh yn gwirioni ar gerddoriaeth glasurol. Rhoddodd y gorau i wrando ar gerddoriaeth yn y misoedd cyn iddo ymuno â ni yma chwe wythnos yn ôl. Fe wnaethom ddechrau tiwnio radio Hugh i Radio 3, ac weithiau mae'n gwrando'n astud ar y gerddoriaeth rhwng prydau bwyd a gweithgareddau, ac fel arfer mae fel pe bai'n ymlacio yn ystod y cyfnodau hyn. Mae Hugh yn mwynhau gwrando ar gerddoriaeth

glasurol ac fel arfer mae hyn yn gwneud iddo ymlacio'n well.

Dywedodd Michael wrthym fod ei dad yn ddyn swil iawn ac nad oedd erioed wedi bod yn un da am 'ymuno'. Gan fod Hugh yn mwynhau Radio 3, fe wnaethom ddechrau chwarae cerddoriaeth glasurol yn y lolfar ddydd Sul. Mae Hugh yn dod i'r lolfar'n amlach ac mae wedi dangos ochr fwy cymdeithasgar ohono'i hun. Y ddau ddydd Sul diwethaf, mae wedi sefyll ar ei draed a symud fel pe bai'n arwain y gerddoriaeth. Trwy hyn, ymddengys fel pe bai wedi creu cysylltiad â dau breswlydd gwrywaidd arall, ac mae'r ddau bellach eisiau eistedd wrth ymyl Hugh a mwynhau'r gerddoriaeth gydag ef. Mae Hugh bellach yn fwy cymdeithasgar yng nghwmni pobl eraill mewn ymateb i gerddoriaeth glasurol, ac mae hyn yn arwain at greu cysylltiadau gyda phreswylwyr eraill.

Roedd Michael wrth ei fodd pan glywodd fod ei dad yn mwynhau cerddoriaeth yn y ffordd hon.

- 86.** Mae'r Cyngor ar Ansawdd ac Arweinyddiaeth (2017) yn argymhell y dylid ceisio cynnwys yr unigolyn yn y sgwrs bob amser, hyd yn oed os caiff y brif wybodaeth ei darparu gan rywun arall. Wrth geisio ennyn diddordeb rhywun, dechreuwch gyda phwnc cyfarwydd, oherwydd bydd hyn yn gwneud i'r unigolyn deimlo'n gartrefol. Efallai y byddai'n fuddiol gofyn i'r unigolyn am awgrymiadau ynglŷn â ble dylid cychwyn. Beth am grybwyll y mathau o bethau rydych eisiau eu trafod a gofyn i'r unigolyn pe bethau sydd bwysicaf iddo ef. Pe na bai'r unigolyn yn dewis, yna mae hi'n bwysig i chi wyllo iaith ei gorff i weld a yw'n gyfforddus. Ar gyfer anghenion cymorth cyfathrebu mwy difrifol, mae arsylwi yn hanfodol. Mae [Matiau Siarad](#) yn un adnodd nad yw'n ddibynnol ar ymatebion geiriol.

87. Mae Helen Sanderson Associates wedi creu adnoddau i helpu'r gyda'r gwaith o lunio cofnodion dyddiol mewn ffordd wahanol. Roedd staff canolfannau dydd wedi sôn wrthi am yr hanner awr a dreuliant ar ddiwedd pob diwrnod yn ysgrifennu nodiadau cynnydd, 'rhag ofn' i rywun gwyno neu 'rhag ofn' i arolygiad gael ei gynnal. Bu'n gweithio gyda nhw i newid y cofnodion hyn a'u troi'n logiau dysgu a chyfathrebu. Fe wnaethant gytuno bod yn rhaid i'r logiau hyn gael eu hadolygu bob 6-8 wythnos er mwyn gweld beth a ddysgwyd, ac yna caiff proffil un dudalen yr unigolyn ei ddiweddarau ar sail hyn. Mae'r diagramau isod yn dangos detholiad o'r log dysgu a gwybodaeth y proffil un dudalen:

Dyddiad ac Amser	Beth wnaeth y person? (Beth, lle, pryd, am faint, etc)	Pwy oedd yno? (enwau staff, ffrindiau, eraill, etc)	Beth wnaethoch chi ei ddysgu am yr hyn a weithiodd yn dda? Beth oedd y person yn ei hoffi am y gweithgaredd? Beth sydd angen aros yr un fath?	Beth ddysgoch chi am yr hyn na weithiodd yn dda? Beth nad oedd y person yn ei hoffi am y gweithgaredd? Beth sydd angen bod yn wahanol?
10 Mehefin 11.00am - 11:30pm	Aeth Mary i'r parc	Karen (aelod staff) a Mary	Diwrnod sych, llachar; cynnes ond ddim rhy boeth. Gwenodd Mary yr eiliad y tarodd yr awyr iach ei ffroenau. Roedd hi'n hymian wrth i mi wthio ei chadair.	Gorfod dod yn ôl cyn cael hufen iâ. Dechreuodd Mary gwyno ar ôl tua 10 munud - roedd ei braich yn troi'n goch am ei bod yn syrthio wrth ei hochr ac yn rhwbio yn erbyn y gadair wrth symud. Angen gofyn i Therapydd Galwedigaethol ddarparu clustog arall iddi fod yn gyfforddus cyn i ni fynd allan eto.
29 Mehefin 10:30am - 11:15am	Aeth Mary i'r parc a chael twb o hufen iâ	Karen a Mary	Diwrnod cynnes. Roedd y glustog ar gyfer cadair Mary yn amddiffyn ei braich ac roedd yn gyfforddus. Roedd Mary yn hymian eto ac roedd yn ymddangos fel ei bod yn gwyrto ei phen i wrando ar yr adar. Roedd hi'n ymddangos bod Mary yn canolbwyntio ar wyllo plant yn chwarae gyda phêl. Roedd ei phen yn symud o ochr i ochr wrth iddi ddilyn y bêl.	Gwnaeth yr hufen iâ i Mary neidio - rhy oer! Angen trio smwddi ffrwythau y tro nesaf. Rhewodd Mary pan ddaeth ci yn agos iddi - cofiwch osgoi cŵn y tro nesaf! Mae gemau yn digwydd yng nghlwb bowls Crown Green Bowling Club bob dydd Llun - ewch ar ddydd Llun y tro nesaf.

Yr hyn sy'n bwysig i Mary:

Teimlo awyr iach ffres ar ei hwyneb
Teimlo'n gyfforddus yn ei chadair olwyn
Mwynhau'r awyr agored a gwrando ar adar yn canu
Gwylio plant yn chwarae

Y ffordd orau o gefnogi Mary:

Angen gwybod y gallai Mary fod ofn cŵn diarth - eu hosgoi
Gofalu bod y glustog amddiffyn ar gadair olwyn Mary yn y safle cywir, er mwyn lleihau'r risg o beri iddi fod yn anghyfforddus neu grafu ei chroen

88. Mae nifer o staff yn cadw gwybodaeth yn eu pennau am y bobl y gweithiant gyda nhw. Yn aml, ni chaiff yr wybodaeth hon ei chofnodi. Eto i gyd, mae'r wybodaeth hon am Mary yn werthfawr o ran cefnogi ei chanlyniadau.

89. Unwaith eto, mae egwyddorion tebyg yn berthnasol wrth weithio gyda phlant. Pan na all plentyn gyfathrebu gyda geiriau, gall arsylwadau esgor ar lawer o wybodaeth, gan gymryd oedran a chyfnod datblygu'r plentyn i ystyriaeth. Yn wir, gall cyfathrebu dieiriau ychwanegu gwybodaeth werthfawr hyd yn oed pan fydd y plentyn yn gallu siarad. Gellir addasu'r templed uchod yn rhwydd ar gyfer ei ddefnyddio gyda phlant.

Egwyddor 12: Gwnewch yn siŵr fod y cofnod yn bersonol trwy'r llwybr bywyd i gyd

90. Mae'r enghreifftiau yn y canllawiau hyn yn ymwneud â phlant ac oedolion. Mae hi'n bwysig cydnabod bod dull canlyniadau personol yn berthnasol i bawb – o'r crud i'r bedd. Mae hyn yn cael ei anghofio weithiau pan fo bywyd yn tynnu tua'i derfyn – ar adeg pan mae yna bob amser gyfleoedd i ddefnyddio ymarfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Caiff hyn ei arddangos yn y mudiad hosbisau a'i grynhoi yng ngeiriau Cecily Saunders, sylfaenydd y mudiad:

“Rwy'ti'n bwysig oherwydd ti wyt ti, rwy'ti'n bwysig hyd at ddiwedd dy oes. Fe wnawn ni bopeth o fewn ein gallu nid yn unig i'th helpu i farw mewn hedd, ond hefyd i'th helpu i fyw hyd nes y byddi di farw.”

Mae gobaith yn elfen a all barhau i fodoli ar ddiwedd oes, ac yn aml gellir ei gysylltu â'r dymuniad i barhau i wneud pethau drosoch eich hun a gosod nodau i gynnal ansawdd bywyd. Yn ôl gwaith ymchwil, gall pennu blaenoriaethau a nodau proffesiynol yn ymwneud â salwch oddi mewn i hosbisau arwain at hepgor yr hyn sy'n bwysig i bobl. Rhaid ymgorffori 'beth sy'n bwysig' yn y system er mwyn ystyried yr hyn mae pobl eisïau ei gyflawni a'r hyn y gallant ei wneud er mwyn gwneud eu bywydau'n fwy ystyrion. Gall pobl addasu eu nodau a'r ffyrdd o'u cyflawni wrth i'w salwch ddatblygu (Boa et al 2019).

Er bod ei chanser yn datblygu, mae Helen eisïau parhau i gerdded at yr afon bob diwrnod gyda'i phartner, cyhyd ag y bydd hynny'n bosibl, lle mae hi bob amser yn chwilio am y crëyr glas – sy'n argoel dda i'w theulu yn ei thyb hi

- 91.** Oherwydd ei chanser, mae cerdded yn waith mwyfwy blinedig i Helen, ac mae'n gwybod na fydd yn gallu cerdded yn hir eto. Mae mynd am dro at yr afon wedi bod yn brofiad ystyrion iddi ac mae ei theulu'n bwriadu mynd â hi at yr afon yn y car pan na all gerdded yno. Hefyd, maent wedi fframio llun bendigedig o'r crëyr glas i Helen ar gyfer yr adeg pan na all fynd i lawr at yr afon. Mae hyn yn galluogi'r teulu i gefnogi Helen ac mae'n eu helpu nhw i ddod i delerau â'i chyflwr.
- 92.** Hyd yn oed ar ddiwedd oes, mae canlyniadau'n dal i fod yn berthnasol ac yn bwysig, oherwydd efallai y bydd unigolion eisïau diffinio'r cyfnod y dymunant barhau i fod yn annibynnol mewn agweddau o hunanofal a chael tawelwch meddwl trwy roi trefn ar eu materion ariannol a gwneud ewyllys, er enghraifft (Boa et al 2019).

Cymorth a goruchwyliaeth ac ymarferion i ddatblygu staff

- 93.** Mae adborth sydd wedi deillio o'n digwyddiadau ymgynghori ac adborth a gawsom gan ein rhanddeiliaid yn tynnu sylw at ba mor bwysig yw cynnig cymorth parhaus i staff a llunio canllawiau ysgrifenedig er mwyn cynnal ac adeiladu ar gofnodion cyson, o ansawdd da, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad sefydliadol i roi blaenoriaeth i'r hyn sy'n bwysig i bobl yng nghanol yr holl anghenion eraill mae'n rhaid rhoi sylw iddynt. Rhaid i ddiwylliant, systemau a phrosesau sefydliadol ganolbwyntio ar ganlyniadau er mwyn cynorthwyo ymarferwyr i ganolbwyntio ar ganlyniadau wrth gofnodi.
- 94.** Yma, trafodwn yn fyr beth yw rôl goruchwyliaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, cyn mynd yn ein blaen i sôn am rai ymarferion myfyriol y gall unigolion neu dimau fynd i'r afael â nhw i ategu cofnodion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau personol.

Goruchwyliaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau personol

'The primary characteristic of outcome focussed supervision is maintaining a focus on the intended results of the work, and to use this focus as a way of structuring supervision. Associated with the outcomes are activities that the supervisee, [the] person and others carry out as part of the plan' (Bucknell 2006, t44). *Dyfyniad Saesneg yn unig.*

- 95.** Dylai goruchwyliaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau fynd ati i fodelu sgysiau seiliedig ar gryfderau a sgysiau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau personol. Ymhellach, mae'n ofynnol i'r cofnod goruchwyllo fodelu'r math o gofnodi yr hoffem ei weld mewn ymarfer. Ceir cyfleoedd yma i sicrhau bod cofnodion yn llywio ymarfer moesegol, myfyriol, gyda thystiolaeth ddigonol yn sail iddo – ymarfer a all hyrwyddo canlyniadau da. Fel rhan o hyn, dylid ystyried a yw'r cynllun yn cael ei roi ar waith. Eto i gyd, mae yna bwysau anghyson ar gofnodi, a gwelir bod hyn yr un mor wir yn achos cofnodion goruchwyllo ag ydyw yn achos cofnodion ymarfer.

Rhai cyfyngiadau sy'n perthyn i gofnodion goruchwyllo ar hyn o bryd

- 96.** Mae goruchwyllo yn rhan hanfodol o ymarfer mewn gwaith cymdeithasol, adsefydlu a gofal cymdeithasol, i ymarferwyr ac ar bob lefel o fewn sefydliadau. Dylai gynnig man diogel i fyfyrion, ac i feithrin sgiliau. O fewn y broses oruchwyllo, dylid canolbwyntio ar ganlyniadau i bawb, gan ganolbwyntio nid yn unig ar y canlyniadau y dymunir eu gweld yn dod i ran yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau, ond hefyd ar y canlyniadau i'r ymarferwyr (Kettle 2015).
- 97.** Mewn gwaith ymchwil a gynhaliwyd yng Nghymru gan Wilkins – sef ymchwil yn ymwneud â chofnodi mewn gwaith gyda theuluoedd – tynnir sylw at rai cyfyngiadau mewn cofnodion sy'n deillio o oruchwyllo gwaith cymdeithasol. Awgryma'r gwaith ymchwil hwn fod tensiynau i'w cael wrth lunio cofnodion goruchwyllo – tensiynau sy'n debyg i'r rhai a geir wrth lunio cofnodion ymarfer, yn yr ystyr bod gwahanol gynulleidfaoedd yn bodoli. Darganfu Wilkins et al (2018) fod rheolwyr yn cytuno mai arolygwyr Ofsted ac uwch-reolwyr yw'r cynulleidfaoedd sydd ganddynt mewn golwg wrth ysgrifennu cofnodion goruchwyllo, a'u bod o'r farn mai'r cynulleidfaoedd hyn sydd fwyaf tebygol o ddarllen y cofnodion yn y tymor byr. Mae hyn yn golygu eu bod yn canolbwyntio ar gofnodi gwybodaeth am weithdrefnau a nodi pan fo camau wedi cael eu cadarnhau a'u cwblhau.
- 98.** Darganfu'r gwaith ymchwil hwn fod yna duedd i lunio cofnodion disgrifiadol a fformiwläig, lle canolbwyntir ar y camau y dylid eu cymryd neu'r camau sydd wedi'u cwblhau (Wilkins, 2017). Mae angen mwy o fyfyrion a dadansoddi. Hefyd, mae yna duedd i osgoi amwysedd yn y cofnod, hyd yn oed os trafodwyd ansicrwydd yn ystod y broses oruchwyllo (Wilkins et al, 2018).

Cefnogi cofnodi effeithiol wrth oruchwylio

99. Ceir adnoddau a dealltwriaeth seiliedig ar ymchwil yn ymwneud â'r hyn a all gefnogi goruchwyliaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, yn cynnwys gwaith diweddar gan Ofal Cymdeithasol Cymru. Rydym wedi cynnwys mwy o ddolenni yn ein hadran adnoddau. Yma, argymhellwn y dylid defnyddio'r fframwaith trafod canlynol i helpu i lunio goruchwyliaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau:

- tuag at beth rydym yn gweithio (canlyniad)?
- beth sy'n gweithio'n dda (cryfderau)?
- beth sy'n peri pryder i ni (risgiau pwysig)?
- beth sy'n rhaid digwydd (pa opsiynau rydym yn eu harchwilio)?
- ble rydym ar hyn o bryd (beth yw'r cynnydd hyd yn hyn)?
- i ble rydym eisiau mynd (beth yw'r camau nesaf)? Calon y Mater: Gofal Cymdeithasol Cymru

100. Mae goruchwyliaeth yn cynnig cyfle i lunio dadansoddiad cydweithredol o gofnodion achos a chytuno ar y cyd sut dylid dadansoddi, dehongli a gweithredu ar sail y data, ynghyd â nodi ble mae angen mwy o wybodaeth. Beth yw'r pethau pwysig i'w cofnodi yn yr holl broses? Mae hyn yn dibynnu ar y canlyniadau i'r teulu ac yn enwedig i'r plentyn/plant dan sylw.

Er ei bod hi'n bwysig monitro bod camau'n cael eu cwblhau er mwyn i bethau beidio â llithro – rhywbeth sy'n arbennig o bwysig mewn achosion hirdymor yn ymwneud ag Amddiffyn Plant a phlant sy'n derbyn gofal – mae hi'n hollbwysig sicrhau bod goruchwyliaeth yn fwy na dim ond rhestr wirio o gamau gweithredu. Rhaid cael dadansoddiad dyfnach o sefyllfa'r unigolyn a'r teulu er mwyn sicrhau bod cynllun cadarn yn cael ei roi ar waith a'i ddilyn.

Ymarferion ar gyfer ymarfer myfyriol fesul un neu mewn tîm

101. Yma, ceir un ymarfer ar gyfer pob un o bedair is-adran ein canllawiau. Mae'r enghreifftiau yn y tri ymarfer cyntaf wedi'u llunio'n benodol i ategu ymarfer ac maent wedi'u seilio ar bobl go iawn. Mae pob un ohonynt yn anarferol yn eu ffyrdd eu hunain ac maent wedi'u cynnwys i'ch cynorthwyo i feddwl yn wahanol am gofnodi. Dylid seilio ymarfer pedwar ar enghraifft o'ch profiad eich hun o ymarfer.

102. Man cychwyn yn unig yw'r ymarferion hyn. Y delfryd yw y bydd timau'n parhau i ddatblygu eu dulliau eu hunain o archwilio cofnodion ac yn cyflwyno eu henghreifftiau eu hunain ar sail eu hymarfer er mwyn annog adborth a myfyrio parhaus ac adeiladol mewn grwpiau.

Ymarfer 1: Gwnewch yn siŵr fod y cofnod yn bersonol ac yn hygyrch

Deunyddiau angenrheidiol: Rhannwch gynllun Oliver o'r adnodd hwn ynghyd â'r wybodaeth/cwestiynau canlynol

103. Gwybodaeth i'w rhannu gyda'r tîm: Ysgrifennodd Oliver ei gynllun ei hun. Ni chafodd ei lesteirio gan bryderon yn ymwneud â gofynion y gwahanol gynulleidfaoedd, sef rhywbeth sy'n digwydd yn aml ymhlith ymarferwyr. Trwy ystyried beth sy'n wirioneddol bwysig o safbwynt Oliver, gallwn lunio cofnod sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau trwy ddechrau o fan cychwyn gwahanol. Fesul un neu mewn tîm, ystyriwch y cwestiynau canlynol ynghlŷn â chynllun Oliver:

- Ar ôl darllen ei gynllun, beth ydych chi'n ei wybod am Oliver a'i flaenoriaethau?
- Beth arall ydych chi eisiau ei wybod cyn bwrw ymlaen?
- Yn eich tyb chi, beth yw'r gwahaniaeth o gael cynllun Oliver yn ei eiriau ei hun?

- Beth sy'n rhwystro rhywun rhag cofnodi yn y ffordd hon?
- A oes yna unrhyw beth y gellid ei drosglwyddo i'ch gwaith cofnodi chi i'w gadw'n gryno ond eto'n ystyrlon?

Ymarfer 2: Gwnewch yn siŵr fod y cofnod yn ddadansoddol

Deunyddiau angenrheidiol: gwybodaeth gefndir, cynllun Kevin, cwestiynau – gweler isod

104. Gwybodaeth gefndir: Mae Kevin yn nyrs gymwysedig yn ei bumdegau cynnar. Mae'n edrych yn ôl ar ei siwrnai ofalu ac ar yr adeg pan gafodd Ella, ei bartner, ei diagnosisio â melanoma angheuol. Bu'n gweithio gyda gweithwyr proffesiynol i ddarparu gofal ysbyty yn y cartref, cyn i Ella symud i hosbis. Mae gan y pâr ferch ddeuddeg oed, sef Carrie. Nid oedd Kevin yn ei ystyried ei hun yn ofalwr ac nid oedd yn gwybod am gymorth i ofalwyr na chynlluniau cymorth i ofalwyr. Gan edrych yn ôl, mae'n ystyried sut ganlyniadau a allai fod wedi dod i'w ran. Dyma ymarfer diddorol i'w ystyried, oherwydd mae llawer o'r hyn a ddisgrifir yng ngoleuni ôl-ddoethineb. Er bod yr wybodaeth hon wedi'i hysgrifennu o safbwynt gofalwr sy'n oedolyn, mae yna blentyn i'w ystyried ac mae Kevin yn cydnabod bod ei ferch yn ofalwr ifanc yn y sefyllfa hon. O safbwynt plentyn, efallai yr hoffech feddwl am ganlyniadau ar gyfer Carrie hefyd, a pha un a all fod angen cymorth yn ei rhinwedd ei hun.

Edrych yn ôl: Cynllun cymorth delfrydol Kevin

Canlyniad	Beth fyddai wedi digwydd
Gweld fy hun fel gofalwr er mwyn i mi adael i eraill fy helpu a dod o hyd i'r cymorth sydd ei angen arnaf	Byddwn yn sicr yn adnabod fy hun fel gofalwr yn gynt, yn gwybod yr hyn rwyf yn ei wybod nawr. Fe wnes i bethau'n anodd i fy hun drwy beidio â gadael i bobl fy helpu hyd yn hwyrach ymlaen. Rwyf hefyd bellach yn deall y gall drysau agor at wybodaeth, cyngor a chymorth, os ydych chi'n gwybod ble i chwilio.
Teimlo fy mod yn gwybod mwy am melanoma, yn enwedig yn y cyfnod diagnosisio	Gall y cyfnod diagnosis fod yn annioddefol. Dilynais lwybrau nad oedd yn ddefnyddiol drwy ddarllen hanesion trist ar-lein. Rwy'n fwy ymwybodol bellach o bwysigrwydd defnyddio gwefannau gwybodus a byddwn yn gofyn i weithwyr proffesiynol helpu gyda hyn.
Gallu addasu'n well i sefyllfaoedd teulu sy'n newid yn gyflym	Roedd angen cyswllt at weithiwr proffesiynol penodol arna i er mwyn fy sicrhau fy mod yn gwneud yn iawn ac i'm helpu i flaenoriaethu cymhlethdodau sefyllfa ofalu oedd yn newid mor gyflym.
Gwybod a theimlo'n hyderus fy mod i'n gwneud y peth iawn dros fy mhentyn	Wrth edrych yn ôl, rwy'n credu fy mod wedi gwneud yn eithaf da yn hyn o beth ond doeddwn i ddim yn meddwl hynny ar y pryd. Byddai ambell air o anogaeth gan weithiwr proffesiynol wedi helpu. Roedd fy merch yn ofalwr ifanc hefyd, ac roedd ei mam yn marw. Byddwn yn ceisio cefnogaeth iddi yn y rôl honno hefyd.
Cael cymorth i reoli gorbryder am fethu cael deupen llinyn ynghyd a chadw fy mhen uwchben y dŵr	Nid oeddwn yn dda iawn am reoli arian bryd hynny, gan mai fy mhartner oedd yn cadw trefn ar ein harian. Gallai sgwrs gyda chynghorydd ariannol fod wedi fy helpu i ragweld rhai o'r costau ychwanegol, a chynllunio ar gyfer bywyd fel rhiant sengl gydag un incwm. Byddai cymorth gyda chludiant i'r hosbis wedi gwneud gwahaniaeth mawr, gan nad ydw i'n gyrru.
Deall a phwyso a mesur pwysigrwydd ymgysylltu ag adnoddau cymunedol amrywiol	Ar ôl i Ella farw, roeddwn i mewn perygl dybryd o dorri fy hun i ffwrdd. Fel unig riant Carrie, cefais fy ngorfodi i gysylltu â gwasanaethau fel yr ysgol a'r meddyg teulu, a chlybiau fel y sgowtiaid a dosbarthiadau dawnns. Wrth edrych yn ôl, roedd y cysylltiadau hynny yn gwneud lles i mi, ac i Carrie. Roedd rhieni eraill yn cadw llygad arna i, ac yn sicrhau bod rhywun ar gael i fynd â fi os oedd sioe ddawnsio yn digwydd. Dydw i ddim yn credu fy mod wedi sylweddoli pa mor bwysig oedd hynny ar y pryd.

Cymerwyd hwn o adnodd cynllunio canlyniadau personol

Cwestiynau

- Yn eich tyb chi, beth yw prif flaenoriaethau Kevin?
- A allwch weld cysylltiad rhwng gwahanol ganlyniadau Kevin?
- Sut mae digwyddiadau yn siwrnai'r teulu yn cysylltu â'r canlyniadau a nodir gan Kevin?
- Sut fath o gynllun cymorth, lle canolbwyntir ar ganlyniadau personol, y gellid ei lunio ar gyfer Kevin ar ôl cynnal Asesiad Gofalwr?
- A oes gennych brofiad o ofalu yn eich bywyd eich hun? Os felly, a yw unrhyw un o ganlyniadau Kevin yn taro tant gyda chi?

Ymarfer 3: Gwnewch yn siŵr fod y cofnod yn 'fyw' a bod cofnodion ar draws pob sefydliad yn cael eu cysylltu gyda'i gilydd

Deunyddiau angenrheidiol: Canlyniadau Rhodri o'r adnodd hwn a'r cwestiynau isod

105. Fesul un neu mewn tîm, ystyriwch y cwestiynau canlynol ynglŷn â chynllun Rhodri:

- Ar beth ydych chi'n sylwi mewn perthynas â chanlyniad Rhodri a beth sy'n gwneud gwahaniaeth?
- A allwch feddwl am sefyllfaoedd tebyg yn eich maes gwaith chi?
- Sut gallwn osgoi ystyried cynnydd anghyson (normalrwydd) fel methiant?
- Yn eich tyb chi, pa mor bwysig yw edrych y tu draw i'r mesurau er mwyn deall y canlyniadau?

Ymarfer 4: Gwnewch yn siŵr fod y cofnod yn gynhwysol

106. Mae'r ymarfer hwn yn wahanol i'r gweddill. Fesul un neu mewn tîm, meddyliwch am enghraifft yn eich ymarfer eich hun lle buoch yn gweithio gyda phobl na allent gyfathrebu eu canlyniadau mewn geiriau. Ar ôl i chi ddewis enghraifft lle bu'n rhaid i chi geisio darganfod beth oedd canlyniadau'r bobl dan sylw, ystyriwch/trafodwch y cwestiynau canlynol:

- Gan feddwl am y bobl a oedd yn gysylltiedig â'r sefyllfa hon (person/plentyn, teulu, ymarferydd/ymarferwyr), barn pwy a gynrychiolwyd yn y ffordd orau?
- A ellid bod wedi gwneud mwy i gyfleu a chofnodi barn yr unigolyn, ac os felly, beth fyddai wedi helpu gyda hyn?
- A oedd gwahaniaethau barn i'w cael, ac a fu modd cofnodi'r rhain? Os na fu modd eu cofnodi, beth oedd yn rhwystro hynny rhag digwydd? Tybed a oes yna ffordd o gofnodi'r gwahaniaethau mewn modd sensitif?
- A allai'r broses gofnodi ei hun fod yn fuddiol wrth geisio datrys y gwahaniaethau, neu o leiaf eu cydnabod?
- Beth arall sy'n rhaid digwydd yn eich tîm / sefydliad er mwyn cefnogi'r broses gofnodi?

Adnoddau ychwanegol

Personal Outcomes Collaboration

<https://personaloutcomescollaboration.org/>

Gofal Cymdeithasol Cymru – Sefydlu'r dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau

<https://gofalcymdeithasol.cymru/gwella-gwasanaethau/sefydlur-dull-syn-canolbwyntio-ar-ganlyniadau>

Cyfeiriadau

Ames, N. (1999) Social Work Recording, Journal of Social Work Education, 35:2, 227-237, DOI: 10.1080/10437797.1999.10778962

Ballatt, J., Campling, P. a Maloney, C. (2020) Intelligent Kindness: Rehabilitating the Welfare State 2nd Edition, Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt

Boa, S., Duncan, E., Haraldsdottir, E. a Wyke, S. ((2019): Mind the gap: Patients' experiences and perceptions of goal setting in palliative care, Progress in Palliative Care, DOI: 10.1080/09699260.2019.1672131

Brown, L., Moore, S. a Turney, D. (2012) Analysis and Critical Thinking in Assessment. Pecyn adnoddau – cyhoeddiad craidd. Dartington: Research in Practice

Bucknell, D. (2006). Outcome focused supervision. Yn HL Reid & J. Westergaard (golygyddion), Providing support and supervision: An introduction for professionals working with young people (tt 41-56). Swydd Rydychen, Y Deyrnas Unedig: Routledge

Collins, E. (2011) Leading for outcomes: Parental substance misuse, Iriss: Glasgow

Cook, A. a Miller, E. (2012) Talking Points Personal Outcomes Approach, Joint Improvement Team: Caeredin

Davies, R. a Dart, J. (2005) Most Significant Change technique, ar gael yn <https://mande.co.uk/wp-content/uploads/2018/01/MSCGuide.pdf>

Yr Adran Addysg (2015) Working together to safeguard children, Yr Adran Addysg: Llundain

Kettle, M. (2015) Achieving effective supervision, Iriss: Glasgow

Hitchin, S. (2018) Language Integrity: Supporting Students to Demonstrate Social Work Values through Word Choice, the Scottish Organisation for Practice Teaching, <https://www.scopt.co.uk/archives/4966>

Iriss (ar ddod) Recording practice tool, Iriss: Glasgow

Emlyn-Jones, Rhoda, Achieving Sustainable Change Ltd.

Miller, E., a Barrie, K. (2016) Learning from the Meaningful and Measurable project: Strengthening links between identity, action and decision-making, HIS: Glasgow

Miller, E., a Barrie, K. (2019) Narrative Recording as Relational Practice in Social Services: A Case Study from a Scottish Carer Support Organisation, The British Journal of Social Work, bcz100, <https://doi.org/10.1093/bjsw/bcz100>

Munro, E., Turnell, A. a Murphy, T. (2016) 'You Can't Grow Roses in Concrete'. Action Research Final Report Signs of Safety English Innovations Project November 2014 – March 2016, Munro, Turnell and Murphy Consultancy

Munro, E. a Turnell, A. gyda Devine, M. a Cunliffe, J. (2020) 'You Can't Grow Roses in Concrete' Part 2. Action Research Final Report Signs of Safety, East Perth: Elia International

- Nicholas, E., Qureshi, H. a Bamford, C. (2003) Understanding and Using Outcomes in Social Care, SPRU: Prifysgol Caerefrog
- O'Rourke, L. (2010) Recording in Social Work: Not just an administrative task, Bryste: Policy Press
- Patterson, M., Nolan, M., Rick, J., Brown, J., Adams, R. a Musson, G. (2011) From Metrics to Meaning: Culture Change and Quality of Acute Hospital Care for Older People, Llundain, NIHR
- Rai, L. a Lillis, T. (2013). 'Getting it Write' in social work: exploring the value of writing in academia to writing for professional practice. Teaching in Higher Education, 18(4) 352–364
- Roose, R., Mottart, A., Dejonckheere, N., van Nijnatten, C. a De Bie, M. (2009) Participatory social work and report writing, Child and Family Social Work, 14, tt 322–330
- Sanderson, H. (2015) Doing daily records differently, gwefan Helen Sanderson Associates: <http://helensandersonassociates.co.uk/daily-records-differently/>
- Warmington, J., Afridi, A. a Foreman, W. (2014) Is Excessive paperwork in care homes undermining care for older people? Caerefrog, JRF
- Wilkins, D. (2017) How is supervision recorded in child and family social work? An analysis of 244 written records of formal supervision. Child & Family Social Work 22 (3), 1130-1140. ffeil 10.1111/cfs.12330
- Wilkins, D., Jones, R. a Westlake, D. (2018) 'The activity does not archive well': Comparing audio and written records of supervision case discussions in Children's Services, Journal of Childrens Services, 13 No. 3/4, tt. 93-109. <https://doi.org/10.1108/JCS-03-2018-0005>

Atodiad 1: Creu'r amgylchedd iawn o fewn y sefydliad er mwyn i ymarfer a chofnodi sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ffynnu

Mae diwylliannau a systemau sefydliadol yn dylanwadu'n fawr ar y mathau o ymarfer sy'n bosibl. Mae astudiaeth o ddysgu a pherfformiad yn y gwasanaethau iechyd (Patterson et al 2011) wedi pennu dau ddiwylliant sefydliadol – sef 'perfformio neu ballu' (perform or persih) a 'perthynol ac ymatebol' (relational and responsive). Mae nifer o'r nodweddion hyn yn berthnasol i sefydliadau gofal cymdeithasol hefyd (Munroe et al 2016, Ballatt a Campling 2020). Amlinellir nodweddion allweddol pob diwylliant yn nhabl 1.

Perfformio neu ballu – canolbwyntir ar y canlynol:	Perthynol ac ymatebol – canolbwyntir ar y canlynol:
Cyflymdra: Atebion sydyn, tymor byr, ysgogir y diwylliant gan brosesau, ymwithio a datrys	Cymhlethdod: Tymor hwy, canolbwyntio ar bobl a chanfyddiadau, broceru a thrafod
Agenda o'r brig i lawr, allanol, diystyru'r cyd-destun lleol i raddau helaeth, rhoi dulliau 'oddi ar y silff' ac 'un ateb sy'n addas i bawb' ar waith	Cydnabyddir ac ymdrinnir â ffactorau cyd-destunol lleol yn llwyr, caiff yr atebion eu teilwra yn ôl y sefyllfa a chaiff modelau a rheolau cyfredol eu haddasu fel bo'r angen
Ychydig o bobl ddethol yn uchel yn y sefydliad a fydd yn pennu'r nodau a chyfeiriad unrhyw newidiadau	Mae pob grŵp, yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, yn gysylltiedig â'r dasg o benderfynu ar y nodau a chyfeiriad unrhyw newidiadau
Dull arwain cosbol a rhyngweithredol o'r brig gyda fawr ddim arweinyddiaeth ar lefel timau/unedau lleol	Ystyr sy'n bwysig, dangosyddion llwyddiant perthynol, dynamig, ansoddol, profiadau a hanesion pobl
Metrigau sy'n bwysig: targedau llwyddiant arwynebol, a meintioli yn aml, e.e. nifer yr asesiadau a gwblheir	Meaning matters, relational, dynamic qualitative indicators of success, people's experiences and stories
Sgoriau – y rhifau sy'n bwysig!	Proffiliau – ystyrir ystod o dystiolaeth
Canlyniadau gwael o ran newid amgylchedd	Canlyniadau da o ran newid amgylchedd

Tabl 1 (addasiad o Patterson et al 2011)

Er mai 'perfformio neu ballu' yn aml yw'r prif ddiwylliant sefydliadol a welir yn y gwasanaethau iechyd, awgryma'r astudiaeth y gellir sicrhau'r canlyniadau gorau trwy roi dull 'perthynol ac ymatebol' ar waith. Yn ogystal â bod mesurau perfformiad yn dylanwadu ar gofnodi yn y gwasanaethau cymdeithasol, rhaid ystyried ystod o gynulleidfaedd posibl. Caiff y rhain eu disgrifio fel gofynion gwerth, gofynion atebolrwydd a gofynion swyddogaethol (O'Rourke 2010).

Yn ystod ein digwyddiadau ymgynghori rhanbarthol, crybwyllodd y cyfranogwyr bryderon tebyg yn y gwasanaethau gofal cymdeithasol. Yn ogystal â chwestiynu'r system bresennol (gweler y dyfyniadau isod), fe wnaethant bennu themâu allweddol sy'n bwysig o ran creu'r amgylchedd a'r systemau sefydliadol iawn ar gyfer ymarfer a chofnodi sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau personol.

“Ymddengys fod a wnelo'r amgylchedd â chanlyniadau'r gwasanaeth o hyd, yn hytrach na chanlyniadau defnyddwyr y gwasanaeth”

“Mae cofnodi pethau'n effeithiol yn anodd iawn pan na fo ein systemau yn ein tywys yn naturiol tuag at gofnodi canlyniad, hyd yn oed pan maen nhw, yn ôl pob sôn, wedi'u cynllunio i wneud hynny”

“Mae’r system bresennol yn rhy safonedig... mae angen i ni ddathlu creadigrwydd ac annog hynny o fewn y gweithlu”

“(ar hyn o bryd) mae yna gwmp-frawddegau y gallwch ddewis o’u plith, ac roedden ni’n credu y gallen ni wneud heb y rhain o bosibl”

“(nid yw’r dull presennol)... yn ei gwneud hi’n bosibl i eiriau’r unigolyn ei hun gael eu clywed, gan eich bod yn ceisio cyrraedd targedau”

“Does yna ddim pwynt gofyn i’r bobl sydd dan y straen fwyaf wneud newidiadau heb i hynny ddigwydd mewn rhannau eraill o’r sefydliad”

Mae’r themâu allweddol a bennwyd gan y cyfranogwyr yn cynnwys y canlynol:

Ar gyfer y bobl maent yn gweithio gyda nhw ac yn eu cynorthwyo:

- Rhaid iddynt gael eu cydnabod fel pobl a chanddynt rywbeth pwysig i’w gyfrannu, nid fel pobl sy’n derbyn yn unig
- Rhaid iddynt gael eu cynorthwyo i fyfrio ar eu siwrnai canlyniadau personol, ynghyd â datblygu’r siwrnai honno, gan gydnabod ac ymateb i flaenoriaethau newidiol a chanlyniadau cysylltiedig
- Rhaid iddynt allu pennu a myfrio ar ganlyniadau personol sy’n canolbwyntio ar fwy na dim ond newid – gall y canlyniadau hyn ymwneud hefyd â chynnal rhai agweddau ar eu bywyd a’r ffordd mae’r bobl sy’n eu cynorthwyo yn gwneud iddynt deimlo amdanynt eu hunain

Ar gyfer ymarferwyr:

- Rhaid iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a’u cynorthwyo, a rhaid iddynt gael goruchwyliaeth ddefnyddiol sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau
- Rhaid iddynt gael eu cynorthwyo i greu deialog a pherthnasoedd gweithio ystyrlon gyda’r bobl a gynorthwyant – nid asesiadau untro brysiog yn unig
- Rhaid iddynt gael amser a llonydd i fyfrio ar eu pen eu hunain a chydag eraill, a rhaid iddynt gael cymorth i ddadansoddi a gwneud penderfyniadau
- Rhaid iddynt gael amser neilltuedig ar gyfer cofnodi

Ar gyfer systemau sefydliadol:

- Dylid datblygu ymddiriedaeth trwy’r holl system a dylid cael llai o gofnodi dibwrpas i osgoi bai neu gyfrifoldeb
- Dylid datblygu iaith a dealltwriaeth gyffredin ynglŷn â’r dull canlyniadau personol o fewn/rhwng sefydliadau
- Dylid cael dull o ymdrin â pherfformiad lle gwerthfawrogir yr arfer o gasglu a defnyddio data ansoddol yn ogystal â data meintiol, a lle cynigir help gyda hyn
- Dylid cael system TGCh a dulliau technolegol ar gyfer cofnodi canlyniadau personol – sef systemau a dulliau a fydd yn arbed amser ac yn gwneud y gwaith cofnodi’n haws a hefyd yn ystyrlon.